


Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011-2026

Safonau Parcio



Canllawiau Cynllunio
Ategol Drafft

Ionawar 2019



SAFONAU PARCIO CANLLAW CYNLLUNIO ATODOL DRAFFT

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	1
2.	Diben y Canllaw Cynllunio Atodol	2
3.	Statws y Canllaw.....	3
4.	Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi.....	4
5.	Rhoi Safonau Parcio Bro Morgannwg ar waith.....	10
6.	Dynodiad Ardal Barcio	13
7.	Seilwaith ar gyfer Mannau Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel lawn.....	15
8.	Parcio ceir i bobl ag anableddau	18
9.	Cyngor a Chysylltiadau Pellach.....	19
10.	Safonau Parcio'n ôl Defnydd Tir	20
11.	Atodiadau	36
11.1.	Atodiad 1 - Mynediad i Bobl Anabl Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr	36
11.2.	Atodiad 2 – Cynllun Ardaloedd Parcio	40
11.3.	Atodiad 3 - Tirlunio	42
11.4.	Atodiad 4 - Safonau Parcio Beiciau	43
11.5.	Atodiad 5 - Safonau Parcio Beiciau Modur	46
12.	Diffiniadau a Nodiadau	47

1. Cyflwyniad

- 1.1. Mae parcio ceir yn dylanwadu'n fawr ar y dewis ddull teithio a phatrwm datblygiad newydd. Os yw llefydd parcio ceir ar gael mae pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio ceir preifat dros ffurfiau mwy cynaliadwy ar drafnidiaeth. Mae parcio ceir bob amser wedi bod yn elfen bwysig mewn defnydd tir wrth gynllunio a datblygu a thrwy safonau a chanllawiau parcio, mae awdurdodau lleol wedi ceisio rheoli parcio ceir i wella'r amgylchedd, lleihau tagfeydd ac annog newid at ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth.
- 1.2. Yn 2008, paratôdd gweithgor swyddogion a gynrychiolai 22 awdurdod lleol Cymru Safonau Parcio Cymru ar ran Cymdeithas Syrfewyr Sirol (CSS) Cymru. Cymeradwywyd Safonau Parcio CSS Cymru 2008 gan y pedwar consortiwm trafndiaeth rhanbarthol a fodolai bryd hynny ac yna mwyafrif awdurdodau lleol Cymru gan gynnwys Cyngor Bro Morgannwg. Prif nodau safonau CSS 2008 oedd:
 - I gynorthwyo datblygwyr, dylunwyr ac adeiladwyr wrth baratoi a chyflwyno ceisiadau cynllunio; a
 - Chyflawni dull cyffredin o ddarparu cyfleusterau parcio cerbydau'n gysylltiedig â datblygiadau newydd a newid defnydd.
- 1.3. Argymhellodd safonau CSS 2008 y dylid defnyddio'r safonau parcio ceir 'uchaf' fel ffurf ar reoli galw a phenderfynu ar y lefel briodol o lefydd parcio ceir sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd. Dylid ystyried argaeledd ffurfiau mwy cynaliadwy ar drafnidiaeth a allai ddylanwadu ar ddefnyddio ceir preifat a'i leihau.
- 1.4. Cafodd canllawiau parcio'n seiliedig ar safonau CSS 2008 eu mabwysiadu'n ffurfiol gan Gyngor Bro Morgannwg fel Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar 11 Mai 2015 (Cofnod rhif C2769). Ar 28 Mehefin 2018 mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2026. Felly diweddarwyd y CCA Safonau Parcio i adlewyrchu'r polisiau cynllunio cenedlaethol a lleol diweddaraf gan ddefnyddio safonau CSS 2008 fel sail i safonau parcio'n gysylltiedig â datblygiadau newydd.

2. Diben y Canllaw Cynllunio Atodol

- 2.1. Mae'r CCA hwn wedi'i gyflwyno i ehangu ar y polisiau sydd yng Nghynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 - 2026 (CDLI) ac mae'n adlewyrchu'r gofyniad a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9) i awdurdodau lleol fabwysiadu safonau parcio fel CCA a'u cadw'n destun arolygu (para 8.4.3).
- 2.2. Noda'r canllaw safonau parcio'r Cyngor i'r datblygiad newydd (gan gynnwys newid defnydd) sy'n gyson ac yn dryloyw. Manylir ar ofynion parcio'n ôl defnydd tir a lleoliad gan restru gofynion cerbydau masnachol, ceir, beiciau modur a beiciau.
- 2.3. Mae'r canllaw hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am sut mae paratoi a mabwysiadu cynlluniau teithio a/neu leoliad y datblygiad arfaethedig mewn perthynas â dulliau trafndiaeth cynaliadwy amgen a gwasanaethau a chyfleusterau lleol angen ystyried lefel y ddarpariaeth barcio ofynnol.
- 2.4. Mae'r CCA hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ofynion y Cyngor o ran darparu seilwaith ar gyfer Cerbydau Mân Allyriadau (CMAAu).

3. Statws y Canllaw

- 3.1. Cymeradwywyd y canllaw hwn gan y Cabinet fel dogfen ymgynghori cyhoeddus ddrafft ar 3ydd Rhagfyr 2018 (Cofnod Rhif C502). Bydd y Cyngor yn ystyried y sylwadau a ddaw i law yn ystod yr ymarfer ymgynghori cyn cwblhau'r ddogfen at ddibenion rheoli datblygu.
- 3.2. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 9 (Tachwedd 2016) yn argymhell i CCA gael ei ystyried fel ystyriaeth berthnasol pa fo wedi'i baratoi mewn ymgynghoriad â'r cyhoedd a phartïon â diddordeb a'i fod yn gyson â'r cynllun datblygu. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y CCA yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio yn y dyfodol ym Mro Morgannwg.

4. Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi

4.1. Deddfwriaeth Genedlaethol

4.1.1. **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015** – yn ceisio cyflawni system gynllunio sy'n deg, gwydn, yn galluogi datblygu ac yn helpu i greu llefydd cynaliadwy.

4.1.2. **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** – yn ceisio gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys saith nod lles y mae'n rhaid i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill geisio'u cyflawni i wella lles nawr ac yn y dyfodol. Mae'n golygu, am y tro cyntaf, fod yn rhaid i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf wneud eu gwaith mewn ffordd gynaliadwy a sicrhau wrth wneud penderfyniadau eu bod yn ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol.

4.1.3. **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013** – yn ceisio ei gwneud yn haws i bobl gerdded a beicio yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol yng Nghymru fapio a chynllunio at lwybrau cynaliadwy ar gyfer teithio llesol ac adeiladu ar a gwella seilwaith cerdded a beicio bob blwyddyn. Mae'n creu dyletswyddau newydd i awdurdodau priffyrdd ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr a gwneud darpariaeth well ar eu cyfer. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol hyrwyddo cerdded a beicio fel dull trafndiaeth.

4.2. Polisi Cenedlaethol

4.2.1. **Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 9)** - Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Noda Paragraff 8.4.1, wrth ystyried eu gofynion rheoli traffig, y dylai awdurdodau lleol fabwysiadu dull integredig ac ystyried sut y gall mesurau gwahanol ategu ei gilydd a chyfrannu at gyflawni amcanion cynllunio a thrafnidiaeth ehangach, gan ystyried anghenion pobl anabl a phobl â phroblemau symudedd yn y gymuned. Mewn canol trefi dylid blaenoriaethu cerdded, beidio, trafndiaeth gyhoeddus a cherbydau dosbarthu drwy ailddyrrannu gofod ffordd.

4.2.2. Noda Paragraff 8.4.2: Mae parcio ceir yn dylanwadu'n fawr ar y dewis ddull teithio a phatrwm datblygiad newydd. Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod llai o lefydd parcio mewn datblygiadau newydd nag a oedd yn y gorffennol. Nid yw safonau parcio sylfaenol bellach yn briodol.

- 4.2.3. **Polisi Cynllunio Cymru Drafft Rhifyn 10 (Drafft Ymgynghori 2018)** – Yn ogystal â'r cyngor presennol ar barcio a nodir uchod, mae rhifyn drafft 10 uchod yn cydnabod rôl cerbydau trydan. Mae'n nodi, i annog y defnydd o Gerbydau Mân Allyriadau (CMAau), y dylai'r system gynllunio sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnwys seilwaith gwefru CMAau. Dylid rhoi'r seilwaith mewn cartrefi, gweithleoedd a chyrchfannau allweddol megis archfarchnadoedd a chanolfannau manwerthu a masnachol a chyfleusterau hamdden a dylai awdurdodau cynllunio ofyn am o leiaf 10% i'r holl fannau parcio ceir amhreswyl fod â phwyntiau gwefru CMA er y gallai fod yn briodol i rywfaint o'r ddarpariaeth hon fod yn 'oddefol' gyda'r seilwaith tanseiliol angenrheidiol fel bod modd syml i osod a rhoi ar waith yn y dyfodol, neu sicrhau cyfraniad ariannol drwy gytundeb A106 tuag at ddarpariaeth oddi ar y safle i seilwaith gwefru CMA (paragraffau 3.146 a 3.147).
- 4.2.4. **Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (2016)** – yn rhoi canllawiau a chynngor ychwanegol ar alluogi dylunio da yn y system gynllunio. Mae'n cydnabod bod parcio'n ystyriaeth wrth ddylunio ac y dylai datblygiadau ystyried gofynion parcio a ph'un ai a reolir hyn yn briodol. Ym mharagraff 5.11.2 nodir: Dylai cynigion datblygu, o ran dylunio tai, anelu at ffocws [inter alia] ar ansawdd llefydd ac amgylcheddau byw i gerddwyr yn hytrach nag i symud a pharcio cerbydau.
- 4.2.5. Noda Paragraff 5.11.7: Gall lle a sut y caiff ceir eu parcio fod yn ffactor pwysig yn ansawdd datblygiad. Ni ddylai cerbydau allu dominyddu'r gofod na pheri anghyfleuster i gerddwyr a beicwyr. Ar yr un adeg, dylid cydnabod anghenion pobl anabl i barcio'n agos at eu hannedd. Mae angen sicrhau cydbwysedd rhwng disgwyliadau perchenogion ceir, yn benodol yr awydd i barcio mor agos at dai â phosibl, i fod yn ddiogel ac yn gysgodol a chofio'r angen i gynnal cymeriad y datblygiad.
- 4.2.6. **Nodyn Cyngor Technegol 18: Trafnidiaeth (Mawrth 2007)** - yn rhoi canllawiau ar gyflawni system cynllunio defnydd tir integredig cynaliadwy a thrafnidiaeth. Noda Paragraff 4.1: Gall parcio geir ddefnyddio llawer o le mewn datblygiadau sy'n lleihau dwysedd a gall felly fod yn ddefnydd aneffeithlon o dir. Gall hefyd greu teithiau ychwanegol os y'i lleolir mewn ardal heb dtrafnidiaeth gyhoeddus. Gall dylunio a chynllun gwael i faes parcio hefyd ei gwneud yn anos darparu cysylltiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus effeithiol.
- 4.2.7. Mae'r NCT yn ei gwneud yn glir y dylid mabwysiadu safonau uchafswm parcio ac nid rhai sylfaenol. Noda Paragraff 4.7: "Wrth benderfynu ar y safonau uchafswm llefydd parcio ceir i ddatblygiad newydd dylid ystyried:
- Hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus a chyfleoedd neu gynigion i'w gwella.
 - Targedau a chyfleoedd cerdded a beicio.
 - Amcanion ar gyfer datblygiad economaidd gan gynnwys twristiaeth;
 - Argaeledd yn yr ardal gyffredinol i barcio cyhoeddus yn ddiogel ar y stryd ac oddi arni; a'r
 - Posibiliad i ddatblygiadau cyfagos neu ddefnydd cymysg rannu mannau parcio e.e. ar adegau gwahanol o'r diwrnod neu'r wythnos".

- 4.2.8. Noda Paragraff 4.13: Lle y bo'n briodol, dylai'r strategaeth barcio leol gysylltu lefelau parcio ar safleoedd datblygu newydd gyda naill ai presenoldeb neu gyflwyno cyfundrefnau rheoli ar y stryd. Ni ddylai safonau uchafswm llefydd parcio gael eu rhoi ar waith mewn modd mor gadarn fel eu bod yn dod yn safonau sylfaenol. Dylai'r safonau uchafswm roi'r disgrisiwn i ddatblygwyr leihau lefelau parcio. Fodd bynnag, pryder penodol gyda llai o barcio ar safle yw'r posibilad y bydd parcio'n gorlifo i fannau cyfagos. Dylai awdurdodau cynllun lleol, wrth ddatblygu'r strategaeth leol neu ymgeiswyr wrth gynnal asesiad trafndiaeth asesu i ba raddau y bydd pwysau ar barcio ar y stryd ac effaith datblygiad newydd. Pan fo manau parcio ar y stryd yn brin, gallai awdurdodau cynllunio lleol geisio cyfraniadau gan ddatblygwyr tuag at weithredu rheoliadau parcio ar y stryd neu wrthod caniatâd i ddatblygiadau lle, er gwaetha'r ffaith fod parcio a reolir, y bydd problemau diogelwch ar y ffyrdd neu dagfeydd annerbyniol fwy na thebyg yn parhau.
- 4.2.9. Noda Paragraff 4.15 y NCT o ran parcio ceir preswyl fod rhywfaint o ddatblygiadau tai heb lefydd parcio efallai'n briodol mewn lleoliadau â chysylltiadau cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus da lle rheolir parcio. Bydd angen darpariaeth parcio i feiciau ac i bobl anabl os nad oes modd sicrhau parcio ar y stryd megis. Bydd lle i rwymedigaethau cynllunio wrth sicrhau nad yw preswylwyr yn berchen ar geir mewn datblygiadau o'r fath. Mewn achosion o'r fath, mae'n hanfodol, cyn eu meddiannu, y dylai preswylwyr y dyfodol wybod am statws di-geir y datblygiad a dylid annog y defnydd o fentrau cynllunio teithio.
- 4.2.10. Noda Paragraff 4.16: Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol roi mwy o bwyslais (nag wrth ystyried defnyddiau amhreswyl) i effeithiau andwyol posibl parcio ar y stryd pan fo dyluniad a chynllun y stryd yn annhebygol o ymdopi'n foddhaol â phwysau parcio preswyl ychwanegol.
- 4.2.11. Noda Paragraff 5.13: Bydd lleoliad manau parcio ar y stryd ac oddi arni'n hanfodol i ddylunio ansawdd strydoedd. Lle na reolir parcio ceir ar y stryd dylai awdurdodau cynllunio gydnabod y ffaith y bydd preswylwyr yn ceisio parcio mor agos at eu cartrefi â phosibl a dylent sicrhau fod cynllun y stryd yn lliniaru'n erbyn parcio amhriodol ac yn osgoi rhwystrau i gerddwyr a cherbydau brys. Mae angen dilyn yr egwyddorion allweddol canlynol wrth ystyried dyluniad a lleoliad parcio ceir:
- Rôl bwysig y stryd wrth greu cymdogaeth i fyw ynddi;
 - Nid oes yn aml un ateb gorau; bydd cyfuniad o barcio ar y plot, oddi arno ac ar y stryd yn aml yn briodol;
 - Gall y stryd fod yn lle da i barcio. Mae parcio ar y stryd yn effeithiol, yn ddealladwy a gall wella hyfywedd a lleihau cyflymder;
 - Argymhellir parcio yng nghefn bloc ar ôl i ddarpariaeth barcio yn y blaen ac ar y stryd gael eu hystyried yn llawn. Mae angen i gyrtiau cefn ategu parcio ar y stryd, nid ei ddisodli; ac
 - Mae angen ystyried diogelwch wrth ystyried manau parcio. Mae cyngor ar y mater hwn yn 'Llefydd Diogelach'.

- 4.2.12. Mae'r **Llawlyfr i Strydoedd (2007)** yn cydnabod bod parcio'n swyddogaeth allweddol ar nifer o strydoedd, er nad yw bob amser yn ofyniad. Rhydd trefniant wedi'i ddylunio'n dda o ran parcio ar y stryd fynediad cyfleus i flaen eiddo a gall ychwanegu at hyfywedd stryd. I'r gwrthwyneb, gall parcio wedi'i ddylunio'n wael greu problemau diogelwch a lleihau ansawdd gweledol stryd. Mae Pennod 8 yn ystyried y gofynion parcio sy'n gysylltiedig â datblygiadau newydd gan gynghori er bod y galw mwyaf am barcio ceir fod angen hefyd ystyried parcio beiciau, beiciau modur ac mewn rhai achosion cerbydau gwasanaeth.
- 4.2.13. Rhydd gyngor ar ddiogelwch parcio ceir: mae ceir yn llai tebygol o gael eu difrodi neu eu dwyn os cânt eu parcio'n y cwrtil. Os nad oes modd i geir gael eu parcio'n y cwrtil, dylent fod ar y stryd o fewn golwg i'r cartref. Lle defnyddir cyrtiau parcio, dylent fod yn fach a dylid bod lle i'r preswylwyr edrych drosto.
- 4.2.14. Noda Paragraff 8.3.5: Bydd angen i awdurdodau cynllunio lleol ystyried yn ofalus beth sy'n lefel briodol o ddarpariaeth parcio ceir. Yn benodol, gallai tandardariaeth fod yn aneniadol i rai darpar feddianwyr a gallai, dros amser, arwain at addasu gerddi blaen yn fannau parcio (gweler y bocs). Gall hyn ddirywio ansawdd gweledol a chynyddu dŵr glaw ffo, sy'n gweithio'n erbyn yr angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.
- 4.2.15. Mae MFS hefyd yn rhoi cyngor ar gynlluniau parcio addas. Noda fod modd defnyddio garejys mwy ar gyfer storio a pharcio ceir, ac mae nifer o awdurdodau bellach yn argymhell isafswm maint o 6m gan 3m. Dywed y bydd angen i fannau parcio amgáu ardal petryal tua 2.4m o led ac o leiaf 4.2m o hyd.
- 4.2.16. Rhoddodd y **Llawlyfr i Strydoedd 2 (2010)** fwy o gyngor technegol ar ddefnyddio egwyddorion MFS.

4.3. Cyd-destun Polisi Lleol

- 4.3.1. **Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2011 – 2016 (CDLI) –** Mae strategaeth gyffredinol CDLI Bro Morgannwg yn canolbwyntio at ddatblygiadau yn y dyfodol yn ardal y de-ddwyrain ac aneddiadau sy'n bodoli lle mae'r rhan fwyaf o wasanaethau a chyfleusterau trafndiaeth gynaliadwy. Hefyd, mae'r amcanion a'r polisiau canlynol yn ceisio sicrhau bod y cynllun yn meithrin dyfodol cynaliadwy sy'n rheoli adnoddau naturiol ac adeiledig Bro Morgannwg ac yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau effaith newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo datblygu a thrafnidiaeth gynaliadwy, cadwraeth ynni a chreu ynni adnewyddadwy.

Amcan 2 – Sicrhau bod datblygiad o fewn Bro Morgannwg yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at leihau effaith a lleihau effeithiau andwyol newid yn yr hinsawdd.

Amcan 3 – Lleihau'r angen i drigolion Bro Morgannwg deithio i fodloni eu hanghenion bob dydd a darparu mwy o ffurfiau cynaliadwy ar drafndiaeth.

- 4.3.2. Ategir amcanion y CDLI gan bolisiâu strategol a pholisiâu rheoli datblygu a'r rhai sy'n fwyaf perthnasol i barcio yw:

Polisi SP1 – Cyflawni'r Strategaeth – sy'n ceisio gwella amgylchedd byw a gweithio Bro Morgannwg drwy inter alia gan hyrwyddo trafndiaeth gynaliadwy.

Polisi SP7 - Trafnidiaeth - sy'n hyrwyddo gwelliannau i drafndiaeth gynaliadwy i wasanaethu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Bro Morgannwg, gan gynnwys y rhwydwaith beicio cenedlaethol, parcio a theithio ar fws a gwelliannau bysus fel y nodir ym Mholisi MG 16 - Cynigion Trafnidiaeth.

Polisi MD1 - Lleoliad Datblygiad - sy'n rhoi fframwaith ar gyfer datblygiad newydd ar safleoedd nas dyrennir ac yn ceisio sicrhau bod datblygiadau o'r fath yn atgyfnerthu rôl aneddiadau yn yr hierarchaeth ac yn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau teithio cynaliadwy.

Polisi MD2 – Dylunio Datblygiad Newydd - sy'n nodi'r egwyddorion allweddol y dylid eu hystyried o ran dylunio, amwynderau a mynediad. Mae'n gofyn i gynigion datblygu roddi amgylcheddau diogel a hygyrch i'r holl ddefnyddwyr, gan roi blaenoriaeth i gerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus ac yn darparu llefydd parcio ceir yn unol â safonau'r Cyngor. Mae'r CCA yn nodi'r safonau hynny.

Polisi MD4 – Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio – sy'n ceisio sicrhau cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol newydd a gwella sy'n briodol i faint, math a lleoliad y datblygiadau newydd gan gynnwys seilwaith trafndiaeth a gwasanaethau i gerddwyr, beicwyr, trafndiaeth gyhoeddus a thraffig cerbydol.

Polisi MD5 – Datblygu o fewn Ffiniau Anheddiad – yn pennu meini prawf i'r datblygiadau hyn, gan nodi y caiff y cynigion eu caniatáu pan nad ydynt (ymhlith pethau eraill) yn cael effaith annerbyniol ar amwynder a chymeriad yr ardal o ran sŵn, traffig a pharcio.

- 4.3.3. Dylid nodi bod y polisiâu a nodir uchod yn cynnwys prif bolisiâu CDLI Bro Morgannwg sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth gynaliadwy, parcio a symudiadau ond y gallai polisiâu eraill y cynllun gyffwrdd ar faterion o'r fath a chael eu defnyddio wrth i'r Cyngor benderfynu ar geisiadau cynllunio'n y dyfodol.

- 4.3.4. **Cynllun Trafnidiaeth Lleol 2015 - 2030 (CTLI)** - Mae'r CTLI yn nodi'r agenda drafndiaeth i Fro Morgannwg, drwy nodi'r mesurau trafndiaeth gynaliadwy sydd eu hangen i'r cyfnod 2015 i 2020 yn ogystal ag edrych ymlaen at 2030. Mae'r CTLI yn ceisio nodi ffyrdd o sicrhau amodau gwella ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr trafndiaeth gyhoeddus ac annog newid mewn dewisiadau teithio oddi wrth gar i un person. Mae'r CTLI hefyd yn ceisio mynd i'r afael â rhagfeydd traffig drwy sicrhau gwelliannau i goridorau priffordd strategol i gymudwyr a allai fod angen teithio'n y car yn ogystal â thrwy sicrhau seilwaith gwell i gerbydau

fflyd. Mae hefyd yn mynd i'r afael â blaenoriaethau diogelwch ar y ffyrdd allweddol y Fro.

- 4.3.5. Felly mae polisi cenedlaethol a lleol wedi newid yn sylfaenol o ragweld a darparu ar gyfer ceir preifat a symud at reoli traffig a lleihau'r ddibyniaeth ar gerbydau preifat.

4.4. Canllaw Cynllunio Atodol

- 4.4.1. **CCA Rhwymedigaethau Cynllunio** - Mae'r CCA Rhwymedigaethau Cynllunio'n egluro'n lle, beth, pryd a sut y ceir rhwymedigaethau cynllunio er mwyn cynorthwyo'r Cyngor â chreu cymunedau cynaliadwy sy'n rhoi budd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r canllaw hwn yn rhoi cyngor ar rwymedigaethau cynllunio i ategu'r polisïau yn CDLI Bro Morgannwg gan gynnwys gofynion rhwymedigaeth gynllunio o ran cyfleusterau trafndiaeth gynaliadwy a fydd yn cynorthwyo wrth gyflawni Cynlluniau Teithio llwyddiannus a all ddylanwadu ar y galw am barcio.
- 4.4.2. **CCA Cynllun Teithio** – Mae'r CCA hwn yn nodi gofynion y Cyngor o ran Cynlluniau Teithio i leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat ac annog symudiad at ddulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy.
- 4.4.3. **Datblygiadau Preswyl a Pherchenogion Tai** – Mae'r CCA hwn yn rhoi cyngor ar beth sy'n bwysig wrth ystyried dylunio datblygiad preswyl newydd neu wneud addasiadau neu welliannau i'ch cartref, gan baratoi cynlluniau a chyflwyno ceisiadau cynllunio. Rhydd y CDLI ganllawiau ar y prif faterion sy'n deillio o ddatblygiad perchennog tŷ newydd; rhydd nifer o safonau y dylid cydymffurfio â hwy i ddiogelu amwynder preswyl; nodi cyfres o egwyddorion i'w dilyn i sicrhau dylunio da; ac atebion posibl i broblemau dylunio posibl.

5. Rhoi Safonau Parcio Bro Morgannwg ar waith

- 5.1. Yn unol â pholisi a chanllawiau cenedlaethol, mae'r safonau'n y CCA hwn i'w dehongli fel rhai **uchafswm** yn hytrach na sylfaenol h.y. nid ydynt yn ffigurau 'mwy na'. Mae parcio ceir yn dylanwadu'n fawr ar y dewis ddull teithio a phatrwm datblygiad newydd. Mae angen i ni sicrhau bod datblygiadau newydd yn cynnig llai o lefydd parcio nag a gyflawnwyd yn flaenorol ac nad yw safonau parcio sylfaenol bellach yn briodol (PCC paragraff 8.4.2).
- 5.2. Credir bod defnyddio safonau uchafswm sy'n cyfyngu ar faint o lefydd parcio sy'n cael ei roi ar ddatblygiadau yn gallu ffocysu sylw ar gyd-destun teithio cyffredinol datblygiad gan gynnwys argaeledd dulliau mwy cynaliadwy ar drafnidiaeth megis trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio. Bydd dull o'r fath yn sicrhau mwy o hyblygrwydd i roi'r safonau parcio ar waith (lle y'u hategir gan dystiolaeth briodol a chadarn) i adlewyrchu amodau lleol ac argaeledd ffurfiau amgen ar drafnidiaeth a gallent arwain at leihau faint o lefydd parcio sydd eu hangen.
- 5.3. Wrth asesu gofynion parcio datblygiad penodol bydd y Cyngor yn ystyried nifer o ffactorau o ran y datblygiad a'i leoliad. Gallai'r rhain gynnwys:
- Gallu defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a'r gwasanaeth ei hun;
 - Argaeledd bysus preifat, tacsis a rhannu ceir;
 - Cyfraddau perthnasol dalgylchoedd llafur llawn amser / rhan amser / lleol;
 - Hygyrchedd drwy gerdded neu feicio i nwyddau a gwasanaethau bob dydd;
 - Darpariaeth barcio bresennol a phosibl yn y dyfodol, maint y traffig a thagfeydd ar strydoedd sydd gyfagos â'r datblygiad;
 - Effeithiau posibl ar y briffordd / diogelwch cyhoeddus;
 - Hygyrchedd i ac argaeledd manau parcio ceir cyhoeddus a/neu breifat yn yr ardal.
- 5.4. Mae'r safonau parcio'n cwmpasu pob ardal ym Mro Morgannwg ond maent yn berthnasol i ardaloedd dynodedig (a nodir yn Adran 6 isod). Er na ddylent fod yn berthnasol fel safonau sylfaenol (yn dilyn y cyngor yn PCC) maent yn awgrymu man cychwyn ar gyfer ystyried y lefel angenrheidiol o barcio i wasanaethu datblygiadau newydd. Os y'u bodlonir mae'r datblygiadau hyn yn annhebygol o achosi problemau diogelwch priffordd o ran parcio anystyriol na chyfrannu at faterion fel tagfeydd. Lle na chânt eu bodloni, bydd angen ystyried p'un ai a ydynt yn gyfiawn yn sgîl ystyriaethau eraill (gweler paragraff 5.3 uchod) a ph'un a yw'n debygol a fydd problemau'n gysylltiedig â diffyg manau parcio dynodedig yn ardal y datblygiad i gymuned sydd bodoli eisoes a defnyddwyr y datblygiad yn y dyfodol. Lle byddai'r problemau hyn yn digwydd yn sgîl diffyg parcio digonol, gallai caniatâd cynllunio gael ei wrthod gan y byddai'r datblygiad yn groes i Bolisi MD2 y CDLI.
- 5.5. Er bod awydd i leihau dibyniaeth ar geir preifat, rhagwelir, yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen darpariaeth barcio i geir mewn datblygiadau preswyl. Mae posibilïad i leihau lefelau parcio preswyl yn benodol os yw'r eiddo'n agos i

gyfleusterau cymunedol lleol, parciau ceir cyhoeddus, ei fod wedi'i wasanaethu'n dda gan drafnidiaeth gyhoeddus a/neu fod tystiolaeth bod perchenogaeth ceir yn isel. Dylid pwylo fodd bynnag i osgoi'r gostyngiadau a allai o bosibl greu problemau diogelwch ar y briffordd a rhaid ystyried amgylchiadau lleol e.e. lled ffyrdd, parcio lleol ar y stryd, agosrwydd at fannau troi neu safleoedd bws ac ati. Mae angen ystyried y materion hyn fesul achos.

- 5.6. Gallai fod rhai achosion pan fo dim llefydd parcio, neu llefydd parcio prin, yn dderbyniol e.e. pan fo datblygiadau mewn lleoliadau hygyrch iawn wedi'u gwasanaethu gan ystod o opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus a/neu fod modd dangos fod galw isel am barcio. Ond, byddai angen i'r cynigion hyn gael eu hategu gan dystiolaeth gadarn sy'n cyfiawnhau'n llawn pam y byddai darpariaeth brin/dim darpariaeth yn dderbyniol. Gallai tystiolaeth o'r fath gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i arolygon parcio lleol, asesiadau cymaradwy gyda defnyddiau presennol / blaenorol, tystiolaeth o berchenogaeth debygol ceir i feddianwyr yn y dyfodol, strategaethau cynllunio teithio ac ati.
- 5.7. Pan fo angen arolwg parcio ceir dylai ddysgu'r galw presennol am lefydd parcio yn ardal leol datblygiad arfaethedig gan ddefnyddio asesiadau / arsylwadau ar y safle. Er mwyn sicrhau mesuriad cywir o drefniadau parcio ceir lleol sy'n bodoli, dylai arolygon safle gael eu cynnal dros gyfnod sydd o leiaf wythnos gan gynnwys ar y penwythnos ac yn ystod yr wythnos ar amryw amseroedd drwy'r dydd sy'n berthnasol i natur y defnydd a gynigir gan gynnwys adegau brig, yn yr hwyrnos ac yn gynnar yn y bore. Dylid osgoi amseroedd lle mae'r galw am lefydd parcio'n anarferol o uchel neu isel (e.e. gwyliau'r ysgol, gwyliau banc neu ddiwyddiadau arbennig).
- 5.8. Bydd yn aml yn berthnasol ystyried y defnydd presennol neu flaenorol (neu rai a allai ddeillio o newid defnydd 'a ganiateir') a'r gofynion parcio cysylltiedig ynghyd â dadansoddiad o'r union ddarpariaeth at y defnydd hwnnw. Os yw'r parcio'n bodloni'r defnydd presennol ac eisoes yn is na'r safonau parcio, gall fod yn ystyriaeth berthnasol sy'n cyfiawnhau llai o lefydd parcio pan nad achosir niwed ychwanegol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol.
- 5.9. Gall dyluniad cynllun preswyl newydd, megis a eiriolir gan y Llawlyfr i Strydoedd, greu ardaloedd o barcio nas dynodir a all ategu'r ardaloedd darpariaeth oddi ar y stryd dynodedig e.e. tramwyfeydd, garejys. Gall gofynion parcio i eiddo penodol gyfrif am fan dynodedig oddi ar y stryd a man ar y stryd nas dynodir ar yr amod bod cyfle realistig y byddai'r olaf yn cael ei ddefnyddio ac na fyddai ei ddefnydd yn creu rhwystr na thagfeydd i ddefnyddwyr eraill y ffordd. At ddiben y ddogfen hon, credir taw man parcio safonol yw 2.6m x 4.8m ond, rhaid bod digon o le o amgylch yr ardal hon i roddi mynediad diogel a chyfleus i geir. Rhoddir manylion penodol or an gofynion llefydd parcio i bobl anabl yn Atodiad 1. Dylai pob ardal barcio ond am ardaloedd parcio preswyl ar fân lonydd preswyl, cyflymder isel a thawel gael eu dylunio i alluogi cerbydau i adael a chyrraedd y safle wrth yrru ymlaen.

- 5.10. Bydd angen cynlluniau teithio fel amod o ganiatâd cynllunio i'r cynigion datblygu hynny sy'n debygol o arwain at oblygiadau trafndiaeth sylweddol. Mae mwy o fanylion ar gynlluniau teithio, eu buddion a pha wybodaeth y dylent ei chynnwys ar gael ar Ganllawiau Cynllunio Ategol y Cyngor ar Gynlluniau Teithio.
- 5.11. Mewn rhai amgylchiadau e.e. Ardaloedd Cadwraeth, mae modd caniatáu addasiadau o'r safonau i gynnal amodau amgylcheddol.

6. Dynodiad Ardal Barcio

- 6.1.1. Diffiniodd Safonau Parcio CSS Cymru 2008 chwe ardal barcio pob un â gwahanol lefelau o ofynion parcio at ddibenion rheoli datblygiad. Roedd y gwahaniaeth rhwng pob ardal yn seiliedig ar bennaf ar yr amryw lefelau o hygyrchedd at wasanaethau a chyfleusterau yn yr ardal honno. Mae'r disgrifiadau ardal felly'n ofynion parcio, o Ardal 1 - Canol y Ddinas sydd ond yn berthnasol i lefydd lle mae cysylltedd sylweddol â phob gwasanaeth (DS nid oes rhai ym Mro Morgannwg) i Ardal 6 – Gwledig lawn sy'n berthnasol i leoliadau cefn gwlad ynysig. Defnyddiwyd y rhain a'u hail-gategoreiddio, gan waredu Ardal 1, i Fro Morgannwg – gweler isod.
- 6.1.2. Bu dynodi ardaloedd parcio ym Mro Morgannwg yn seiliedig ar y disgrifiadau ardal sydd yn Safonau Parcio CSS a phenderfynwyd ar yr ardaloedd parcio drwy farnu pob ardal ar sail:
- a) Nifer, ystod a nodweddion y cyfleusterau o fewn pellter cerdded;
 - b) Faint o drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael ac yn benodol nifer ac amlder y gwasanaethau bws.
- 6.1.3. Yn ogystal â'r uchod, dylanwadodd y wybodaeth a baratowyd i ategu'r CDLI gan gynnwys Arfarniad Aneddiadau Cynaliadwy'r Cyngor, dynodiadau ffiniau aneddiadau a ffiniau canolfannau siopau ardal ar ffiniau'r ardaloedd parcio.
- 6.1.4. Dengys **Cynllun 1** y pum Ardal Barcio ym Mro Morgannwg a nodir y disgrifiadau ardal isod. Y ffordd orau o weld yr Ardaloedd Parcio unigol yw'r map rhyngweithiol yn:
- http://myvale.valeofglamorgan.gov.uk/Parkingzones_FullScreen.html
- 6.1.5. Gallai'r ardaloedd parcio a nodir yn y CCA fod yn destun diwygiadau gan y gallai datblygiad newydd gyflwyno elfennau megis cyfleusterau cymunedol ychwanegol neu gyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus gwell sy'n ei gwneud yn angenrheidiol ail-ddiffinio'r ardaloedd parcio a nodir.

6.2. Ardaloedd Parcio

Ardal A – Canol y Dref

Canol y dref yw'r ardal sydd ym mam pobl leol yn gyrchfan i'r rhan fwyaf o'u gweithgareddau nas bodloni yn y gymuned leol. Mae gan yr ardal ystod lawn o fannau manwerthu a nifer o fusnesau masnachol, oll o fewn pellter cerdded. Mae'r ardal yn ganolbwynt i'r rhwydwaith bysus lleol ac yn debygol o gynnwys gorsaf drenau. Mae dwysedd adeiladau'n uchel a phrin fod llefydd i barcio ceir preifat. Mae cyfyngiadau parcio mawr a llawer o barcio ar gael oddi ar y stryd i'r cyhoedd.

Ardal B - Trefol

Yn rhan graidd o ardal adeiledig sylweddol gyda nifer o gyfleusterau lleol sylfaenol o fewn 400m ar droed. Ystod o lwybrau bysus yn cynnig hyd at 6 bws yr awr; gydag ystod y cyrchfannau'n rhoi mynediad ymarferol i'r rhan fwyaf o gyfleusterau hanfodol er nad pob un. Mae cwrtill y safle'n cyfyngu, i raddau, ar y ddarpariaeth barcio y gellir ei rhoi yno. Mae'n debygol y bydd rhai cyfyngiadau ar barcio ar y ffordd ac mae'r parcio oddi ar y ffordd yn gyfyngedig iawn os yw ar gael o gwbl.

Ardal C – Isdrefol neu Ger Ardal Drefol.



Mae'r ardal hon yn cynnwys ymylon y trefi mwyaf; maestrefi mewn trefi; yr ystod o aneddiadau llai sy'n cynnig ystod o wasanaethau lleol. Mae o leiaf wasanaeth bws yr awr i ganol y dref a gallai hefyd fod gorsaf drenau'n y dref. Mae cyfleusterau lleol yn cynnwys canolfan leol o fewn 400m ar droed. Mae rhai amwynderau sylfaenol eraill fel meddygfa hefyd ar gael o fewn yr un pellter cerdded.

Ardal D – Cefn Gwlad






Mae Ardal D yn cwmpasu ardaloedd gan gynnwys pentrefi bychain gydag ychydig o gyfleusterau lleol o fewn pellter cerdded. Rhaid gyrru i wneud y rhan fwyaf o deithiau er bod rhywfaint o swyddi lleol. Does dim gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus fesul awr ac ond un i'r ganolfan leol. Nid oes prinder tir parcio ar safleoedd ond ychydig o leoedd sydd i barcio ceir ar y system briffyrdd gysylltiedig.

Ardal E – Gwledig iawn.

Mae'r ardal hon yn cynnwys adeiladau unigol ymranedig ac fe'i nodweddir gan ardaloedd heb gyfleusterau lleol o fewn pellter cerdded. Mae angen teithio mewn modur i bob taith ond am y rhan mwyaf lleol. Mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn anaml tu hwnt neu'n fwy na phellter cerdded. Nid oes prinder tir parcio ar safleoedd ond ychydig o leoedd sydd i barcio ceir ar y system briffyrdd gysylltiedig oherwydd ei bod mor gul.



Ardaloedd Parcio:

-  Ardal A Canol y Dref
-  Ardal B Trefol
-  Ardal C Isdrefol neu Ger Ardal Drefol
-  Ardal D Cefn Gwlad
-  Ardal E Gwledig lawn

7. Seilwaith ar gyfer Mannau Gwefru Cerbydau Allyriadau Isel lawn

- 7.1.1. Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau tuag at yr amgylchedd a'r modd y gall helpu i liniaru'r hyn sy'n achosi newid yn yr hinsawdd, i wella ansawdd yr aer leol ac i gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. I'r perwyl hwn, mae Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor yn cynnwys polisiau sy'n annog trafndiaeth gynaliadwy, amgylcheddau iach a dulliau o liniaru newid yn yr hinsawdd.
- 7.1.2. Mae'r Cyngor yn cydnabod mai cyfran fach iawn o'r cerbydau ar ein ffyrdd sy'n Gerbydau Allyriadau Isel lawn neu Gerbydau Hybrid Trydan (CAIL a CHT) ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae technoleg newydd wedi golygu bod cerbydau trydan yn dod yn fwy poblogaidd a rhagwelir y bydd eu defnydd a'u poblogrwydd yn cynyddu ymhellach ochr yn ochr â datblygiadau newydd mewn technoleg a mentrau'r llywodraeth.
- 7.1.3. Mewn ymgais i wella ansawdd yr aer drwy leihau allyriadau ceir, mae Llywodraeth y DU wedi cadarnhau y bydd yn rhoi diwedd ar werthu pob car a fan petrol a disel confensiynol newydd erbyn 2040.
- 7.1.4. Felly, er mwyn annog pobl i ddewis y cerbydau hyn a gwella nifer a dosbarthiad daearyddol y seilwaith gwefru ULEV, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau'r seilwaith angenrheidiol ar gyfer manau gwefru cerbydau trydan (MGCT) o fewn cynigion datblygu newydd.
- 7.1.5. Bydd angen i ddatblygwyr, felly, ystyried manau gwefru CAIL gweithredol yn ogystal ag anweithredol wrth iddynt lunio eu cynigion cynllunio. Byddai ystyriaethau o'r fath yn cynnwys:
- Lleoliad y manau gwefru mewn perthynas â'r datblygiad e.e. eiddo preswyl arfaethedig, manau parcio cyhoeddus;
 - Gofynion ychwanegol cilfachau gwefru e.e. arwyddion ychwanegol, rhwystrau diogelu/amddiffyn, cilfachau parcio mwy o faint;
 - Darparu elfennau gwasanaethu/pibellau o fewn y datblygiad i bweru'r seilwaith ar gyfer MGCT;
 - Mannau gwefru pwrpasol gyda'r cyfleusterau gwefru angenrheidiol.
 - Darparu pibellau a seilwaith arall er mwyn gallu caniatáu ar gyfer cerbydau trydan yn hawdd mewn ardaloedd parcio yn y dyfodol.
 - Y gwaith i osod caledwedd y manau gwefru yn ogystal â'r gwaith i atgyfnerthu rhwydwaith y grid.
- 7.1.6. Os bydd darparu'r manau gwefru ar y safle yn cael ei ystyried yn addas, ond bod cyfyngiadau ar y safle yn gwneud y gwaith gosod yn anymarferol, bydd angen i'r datblygwr gyfrannu at hwyluso'r ddarpariaeth o MGCT mewn safleoedd addas yn yr ardal e.e. meysydd parcio cyhoeddus dan reolaeth yr awdurdod lleol, canolfannau hamdden neu manau parcio ar y stryd. Yn seiliedig ar y gost

gyfartalog bresennol o osod uned wefru arferol, bydd angen i ddatblygwyr gyfrannu £2,500 fesul uned.

- 7.1.7. Mae amrywiaeth gynyddol o ffynonellau ariannu yn cael eu cynnig i gyrff sector preifat yn ogystal â'r sector cyhoeddus er mwyn annog y gwaith o ddarparu MGCT a'r seilwaith ar eu cyfer. Lle bo'n bosibl ac yn addas, bydd y Cyngor yn defnyddio cyfraniadau ariannol oddi ar y safle i sicrhau grant ychwanegol a/neu'n ystyried gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau allanol er mwyn manteisio'n llawn ar y lefel o seilwaith newydd y gellir ei ddarparu. Lle y bo'n briodol, gall y Cyngor a thirfeddianwyr trydydd parti gytuno ar gytundebau rheoli. Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried lleoli'r MGCT mewn safleoedd preifat sy'n cael eu defnyddio i raddau helaeth gan y cyhoedd e.e. meysydd parcio mewn archfarchnadoedd, datblygiadau masnachol/manwerthu.
- 7.1.8. Wrth osod manau gwefru ar y stryd, lle y bo'n bosibl, dylid gosod manau gwefru dau ben sy'n medru gwefru dau gerbyd ar yr un pryd er mwyn gwneud y mwyaf o'r gwerth am arian a chynyddu argaeledd.
- 7.1.9. Dylai'r holl fannau gwefru sy'n cael eu darparu, p'un ai'n weithredol neu'n anweithredol, ar y stryd neu oddi ar y stryd, gydymffurfio â'r canllawiau a'r manylebau technegol yn unol â Swyddfa Cerbydau Allyriadau Isel (SCAI)¹ y Llywodraeth.
- 7.1.10. At ddibenion y CCA hwn:
- Mae **manau gweithredol** yn gwbl wifrog, wedi'u cysylltu'n llawn ac yn barod i'w defnyddio fel manau gwefru mewn manau gwefru cerbydau trydan pwrpasol, naill ai ar y stryd neu oddi ar y stryd.
 - Mae angen y seilwaith gwaelodol angenrheidiol ar **ddarpariaeth anweithredol**, gan gynnwys y ceblau a'r pibellau angenrheidiol er mwyn gallu gosod a gweithredu manau parcio MGCT yn hawdd yn y dyfodol, naill ai ar y stryd neu oddi ar y stryd.
- 7.1.11. Mae'r tabl isod yn dangos manylion y safonau technegol nodweddiadol ar gyfer y gwahanol alluoedd gwefru.

Tabl 1: Safonau Technegol Manau Gwefru Nodweddiadol

Math y Man Gwefru	Trosglwyddiad Pŵer	Amserau Gwefru Arferol	Defnydd Arferol
Araf	<3kW – Un wedd	8-12 Awr	Parcio preswyl ar ac oddi ar y stryd.
Cyflym	<7kW – Un wedd	3-4 Awr	Man parcio i gyflogeion, parcio ar gyfer cyfleusterau hamdden/manwerthu, atyniadau i dwristiaid, parcio preswyl a pharcio i ymwelwyr cyflogaeth.
	<22kW – Tri chyfnod	1-2 Awr	

¹ Mwy o fanylion ar gael a www.gov.uk/government/organisations/office-for-low-emission-vehicles

Chwim	<43kW – Teirgwedd	80% mewn 20-30 munud	Hybiau Gwefru Cerbydau Trydan, parcio cyhoeddus, arosfannau taccis a depos bysys.
	<50kW – Cerrynt didor		
Cyflym iawn	>43kW – Tri chyfnod	<20-30 munud	
	<50kW – Cerrynt didor		

7.2. Safonau Darparu ar gyfer Datblygiadau Preswyl

7.2.1. **Parcio preifat / oddi ar y stryd** – Ar gyfer datblygiadau preswyl o 50 uned neu fwy:

- Bydd rhaid i'r holl fannau parcio gynnwys MGCT anweithredol
- Bydd angen MGCT gweithredol ar o leiaf 10% o'r lleoedd parcio. Rhaid gosod y rhain mewn man gyfleus i'r lleoedd parcio oddi ar y stryd (gan amlaf wedi'u gosod yn erbyn wal yr eiddo) sy'n cyd-fynd â holl fanylebau technegol presennol a pherthnasol SCAI (gan gynnwys cylched mewnol pwrpasol a blwch ffiws yn gwasanaethu'r man gwefru).

7.2.2. **Parcio i Ymwelwyr / Parcio Cymunedol ar y Stryd** – ar gyfer datblygiadau preswyl o 50 uned neu fwy, lle darperir manau parcio i ymwelwyr / parcio cymunedol, dylid eu darparu fel manau anweithredol o'r cychwyn cyntaf gydag o leiaf 10% o'r holl lleoedd parcio cymunedol/i ymwelwyr yn cael eu defnyddio fel manau gweithredol ar gyfer MGCT. Dylai pob MGCT gael ei leoli mewn manau amlwg a chyfleus o fewn cyrtiau parcio cymunedol a chynnwys arwyddion, goleuadau a mynedfeydd.

7.3. Safonau Darparu ar gyfer Datblygiadau nad ydynt yn rhai Preswyl

7.3.1. Bydd angen i 10% o leiaf o'r manau parcio ceir ar ddatblygiadau eraill sy'n cyrraedd y trothwy a nodir yn Nhabl 2 (isod) ddarparu MGCT i gydymffurfio â manylebau technolegol SCAI, a'r rheiny o'r math gwefru 'Cyflym'.

7.3.2. Dylid nodi y bydd MGCT yn rhan o'r gofynion parcio arferol h.y. os bydd y gofyniad parcio ar gyfer datblygiad yn 20 lle, bydd rhaid i ddau ohonynt gynnwys seilwaith MGCT .

Tabl 2: Trothwyon ar gyfer Manau Parcio Gwefru Ceir Trydanol

Defnydd	Trothwy
Manwerthu	Ardal gofod llawr >1,000 metr sgwâr
Cyfleusterau hamdden gan gynnwys gwestai metr sgwâr	Ardal gofod llawr >1,000 metr sgwâr
Busnes	Ardal gofod llawr >2,500 metr sgwâr
Diwydiant	Ardal gofod llawr >5,000 metr sgwâr
Dosbarthu a warysau	Ardal gofod llawr >10,000 metr sgwâr
Ysbytai	Ardal gofod llawr >2,500 metr sgwâr
Stadiymau	Mwy na 1,500 sedd
Tai	Mwy na 50 annedd

8. Parcio ceir i bobl ag anableddau

- 8.1. Rhaid ystyried anghenion pobl â nam ar y symudedd wrth gynllunio a dylunio datblygiad newydd gan gynnwys nifer y manau parcio sydd ar gael, eu dyluniad, eu hansawdd a'u lleoliad ar y safle. Rhydd Atodiadau 1 a 2 y safonau parcio fanylion o ran y safonau penodol sy'n berthnasol i fannau parcio i bobl anabl.

9. Cyngor a Chysylltiadau Pellach

- 9.1. Mae rhagor o gyngor ar bob agwedd ar y canllaw hwn ar gael gan adrannau Cynllunio, Diogelwch Ar Y Ffyrdd a Phrifyrdd y Cyngor (gweler isod).

Swyddog Cynllunio ar Ddyletswydd

Rheoli Datblygiadau

Swyddfa'r Dociau

Dociau'r Barri

Y Barri

CF63 4RT

E-bost: planning@valeofglamorgan.gov.uk

Ffôn: (01446) 704681

Prif Beiriannydd – Datblygu Priffyrdd

Gwasanaethau Priffordd a Pheiriannu

Depo'r Alpau

Quarry Road

Gwenfô

CF5 6AA

E-bost: highwaydevelopment@valeofglamorgan.gov.uk

Ffôn: 02920 673081

10. Safonau Parcio'n ôl Defnydd Tir

10.1. Preswyl: Adeiladau Newydd ac Addasiadau

ARDALOEDD A—E

Math y Datblygiad	Preswylwyr	Ymwelwyr
Dibenion Cyffredinol Tai a Fflatiau		
Tai	1 man i bob ystafell wely (hyd at 3 lle)	1 lle i bob 5 uned
Fflatiau	1 man i bob ystafell wely (hyd at 3 lle)	1 lle i bob 5 uned
Addasiadau i fflatiau un ystafell, neu fflatiau hunangynhwysol	1 man i bob ystafell wely (hyd at 3 lle)	1 lle i bob 5 uned
Addasiadau tai yn hostel preswyl	1 man i bob staff preswyl 1 man i bob 3 staff amhreswyl	Dim
Tai Arbennig		
Annedd hunangynhwysol i berson hŷn (heb warden)	1 lle i bob 2-4 uned	1 lle i bob 4 uned
Annedd hunangynhwysol i berson hŷn (gyda warden)	1 lle i bob 4 uned 1 lle i bob warden 1 lle i bob 2 staff ategol	1 lle i bob 4 uned
Llety myfyrwyr pwrpasol dan reolaeth Coleg / Prifysgol	1 lle i bob 25 gwely at ddibenion gwasanaethu, wardeiniaid ac ardaloedd gollwng	1 lle i bob 10 gwely (i fyfyrwyr a/neu ymwelwyr)
Cartrefi plant preswyl / cartrefi'r henoed / cartrefi nyrsio	1 man i bob staff preswyl 1 man i bob 3 staff amhreswyl	1 lle i bob 4 gwely

Nodiadau ar safonau parcio Preswyl

1. Rhaid darparu parcio cwrtil lle bynnag y bo'n bosibl. Lle rhoddir llefydd parcio cymunedol rhaid eu lleoli'n gyfleus a bod mewn lleoliad hawdd ei weld sy'n gwella diogelwch. Ni all unrhyw gwrth parcio gynnwys mwy na 12 lle parcio'n dibynnu ar y cyd-destun lleol, parcio dynodedig wedi'i ddiogelu gan folard cloadwy neu rywbeth arall efallai. Rhaid rhoi mynediad diogel i gerddwyr rhwng pob annedd a'r man parcio.
2. Dylid gosod garejys fel yr opsiwn parcio mwyaf diogel lle y bo'n bosibl, wrth ymyl yr annedd os oes modd. Rhaid osgoi blociau garej ar wahân.
3. Ni chaiff garejys ond eu cyfrif fel mannau parcio os oes iddynt y dimensiynau mewnol canlynol, fel yr awgrymir gan y Llawlyfr i Strydoedd: 6m x 3m ar gyfer garej unigol a 6m x 6m ar gyfer garej ddwbl. Os oes angen mynediad i bobl anabl rhaid cynyddu'r dimensiynau hyn i 6m x 3.8m ar gyfer garej unigol a 6m x 6.3m am garej ddwbl. Dimensiwn man parcio safonol yw 2.6m x 4.8m, ond rhaid bod digon o ofod o gylch hwn i roi mynediad diogel a chyfleus i gerbydau. Felly fel arfer bydd angen i dramwyfa eiddo preswyl fod o leiaf 3.6m o led. O ran tramwyfeydd dwbl cynyddir y lled i 6.0m. Rhaid i bob lle parcio wrth y lôn gerbydau neu flaen garej fod yn 6.0m i alluogi llwytho a dadlwytho o gerbydau neu i roi mynediad hawdd i'r garej.
4. Rhaid dylunio parcio i ymwelwyr fel rhan graidd o unrhyw ddatblygiad lle mae'n ofynnol a rhaid iddo ystyried anghenion pobl anabl.
5. O ran cartrefi preswyl i'r henoed a chartrefi nyrsio, rhaid bod digon o le gweithredol yn agos i'r adeilad i alluogi mynediad i ambiwlans a'r gallu i adael wrth yrru ymlaen.

10.2. Swyddfeydd: Dosbarth Defnydd B1 Busnes, Dosbarth A2 Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol (gan gynnwys Canolfannau Galw)

ARDALOEDD A a B

Datblygiad	Gofyniad	Datblygiad	Gofyniad
Swyddfeydd (<1,000 msg)	1 lle i bob 35 msg	Swyddfeydd (<1,000 msg)	1 lle i bob 60 msg
Canolfannau Galw (<1,000 msg)	1 lle i bob 25 msg	Canolfannau Galw (<1,000 msg)	1 lle i bob 40 msg

ARDALOEDD C-E

Datblygiad	Gofyniad	Datblygiad	Gofyniad
Swyddfeydd (<1,000 msg)	1 lle i bob 25 msg	Swyddfeydd (<1,000 msg)	1 lle i bob 40 msg
Canolfannau Galw (<1,000 msg)	1 lle i bob 20 msg	Canolfannau Galw (<1,000 msg)	1 lle i bob 25 msg

Nodiadau ar safonau parcio Swyddfeydd

1. Bydd yr un gofynion o ran ailddatblygu, addasu ac estyn swyddfeydd ag i adeiladau newydd, yn amodol ar nodyn 2 isod.
2. O ran safleoedd â hyd at 200msg o ardal llawr gros caniateir cynnydd o 20% heb fod angen parcio ychwanegol. Gall y lwfans hwn ond â chael ei wneud a rhaid i unrhyw barcio a waredir gan ei wneud yn iawn amdano.
3. Gellir ystyried ymlacio gofynion parcio mewn ardaloedd siopa i newid defnydd ar lefel llawr gwaelod safle o Ddefnydd Dosbarth A1 (siopau) i Ddefnydd Dosbarth A2 (Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol).
4. Cedwir llefydd parcio i bobl anabl. Cyfeirier at Atodiad 1.
5. O ran parcio beiciau a beiciau modur cyfeirier at Atodiadau 4 a 5.

10.3. Siopau: (Gan gynnwys Siopau, Archfarchnadoedd a Siopau Mawr)

ARDALOEDD A a B

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Siopau (<200 msg)	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 60 msg
Siopau ac archfarchnadoedd bychain (201 msg – 1,000 msg)	2 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 40 msg
Siopau ac archfarchnadoedd bychain (1,001 msg – 2,000 msg)	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 40 msg
Archfarchnadoedd a siopau mawr (bwyd yn bennaf) (<2,000 msg)	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 14 msg 1 man Taccis i bob 100 msg GFA

ARDALOEDD C a D

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Siopau (<200 msg)	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 60 msg
Siopau ac archfarchnadoedd bychain (201 msg – 1,000 msg)	2 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 20 msg
Siopau ac archfarchnadoedd bychain (1,001 msg – 2,000 msg)	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 20 msg
Archfarchnadoedd a siopau mawr (bwyd yn bennaf) (<2,000 msg)	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 14 msg 1 man Taccis i bob 100 msg GFA

ARDAL E

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Siopau (Pob maint)	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 60 msg

Nodiadau ar safonau parcio Siopau

1. Mae'r safon anweithredol hon yn rhagdybio cymhareb manwerthu i ddim manwerthu o 75:25. Gallai fod amrywiad yn ôl disgrisiwn yr Awdurdod Lleol pan ddefnyddir cymhareb wahanol.
2. Er y gallai fod gan 'barciau manwerthu' parcio a rennir, bydd angen o hyd lefelau tebygol o barcio i ddatblygiadau o'r fath megis siopau unigol oherwydd hyd hirach y parcio.
3. Pan fo safleoedd presennol yn cael eu defnyddio i sefydlu marchnad stondinau, bydd yr ymgeisydd yn nodi lleoliad i ddarparu parcio i ymwelwyr.
4. O ran safleoedd â hyd at 200msg o ardal llawr gros caniateir cynnydd o 20% heb fod angen parcio ychwanegol. Gall y lwfans hyn ond â chael ei wneud a rhaid i unrhyw barcio a waredir gan ei wneud yn iawn amdano.
5. Nid yw cynnydd yn nhrefodion archfarchnadoedd yn gymharol â chynnydd y gofod llawr. Mae estyniadau o 33% o ardal llawr gros yn creu cynnydd o 10% mewn trafodion.
6. Mae'r safon anweithredol yn cynnwys parcio i gyflogeion.
7. Cedwir parcio i Bobl Anabl. Cyfeirier at Atodiad 1.
8. O ran parcio beiciau a beiciau modur cyfeirier at Atodiadau 4 a 5.
9. Yn ogystal â gofynion parcio gweithredol at ddibenion gwasanaethu, rhaid bod bob amser ddigon o le i ganiatáu am wasanaethu cerbydau i gael mynediad a gadael cwrtil ardal wasanaethu'r siop wrth yrru ymlaen.

10.4. Warysau Manwerthu a Garejys**POB ARDAL**

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Warws Fanwerthu (nid bwyd) (nid-DIY) (>1,000 msg)	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 30 msg
Warws Fanwerthu (Canolfannau DIY a Garddio) (>1,000 msg)	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 20 msg
Gwerthwyr Adeiladwyr (Masnachu a Manwerthu)	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 80 msg a 10% o GLIG
Warysau Talu a Chario (Masnach yn Unig) (>1,000 msg)	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 50 msg
Marchnadoedd Awyr Agored a Sêl Cist Car	1 man i bob stondin	1 lle i bob 30 msg o ardal gros llain standin gan gynnwys ardal i gerddwyr
Garejys Trwsio Ceir	1 man car/lori i bob bae gwasanaethu car/lori	2 fan car/lori i bob bae gwasanaethu car/lori
Gorsafoedd Gwasanaethu (Egsôsts, MOT, Teiars ac ati)	1 man lori a 20% o GLIG	2 fan car/lori i bob bae gwasanaethu car/lori
Gorsafoedd Petrol (gweler nodyn 10 par. siopau cyfleuster cysylltiedig)	1 man i bob tancer petrol	4 man at ddefnydd atodol (e.e. golchfa geir awtomatig)
Safleoedd Gwerthu Ceir	1 man ar gyfer cludo car	1 lle i bob 50 msg ardal fanwerthu (mewnol ac allanol)
Safle Gwerthu Motobeics	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 50 msg ardal fanwerthu (mewnol ac allanol)
Ysgolion Gyrru Llogi Preifat / Llogi Cerbyd Tacsis Trwyddedig	1.25 man i bob cerbyd a weithredir	1 man i bob 3 staff atodol

Nodiadau ar safonau parcio Warysau Manwerthu a Garejys

1. Mae ystod y tripliau a'r galw am barcio mewn warysau manwerthu'n amrywio'n helaeth. Gellir dosbarthu gofynion parcio'r mathau mwyaf cyffredin o siop mewn bandiau eang. Adlewyrchir hyn gan y gofynion yn y tabl.
 - Gofyniad Uchaf - Siopau DIY
 - Gofynion canolig – Nwyddau trydanol/nwy, siopau dodrefn pecyn gwastad
 - Gofyniad isaf – Siopau dodrefn cyflawn/carpedi, siopau nwyddau'r cartref a hamdden
2. Er y gallai fod gan 'barciau manwerthu' parcio a rennir, bydd angen o hyd lefelau tebygol o barcio i ddatblygiadau o'r fath megis siopau unigol oherwydd hyd hirach y parcio.
3. Pan fo safleoedd presennol yn cael eu defnyddio i sefydlu marchnad stondinau, bydd yr ymgeisydd yn nodi lleoliad i ddarparu parcio i ymwelwyr.
4. O ran safleoedd â hyd at 200msg o ardal llawr gros caniateir cynnydd o 20% heb fod angen parcio ychwanegol. Gall y lwfans hwn ond â chael ei wneud a rhaid i unrhyw barcio a waredir gan ei wneud yn iawn amdano.
5. Nid yw cynnydd yn nhrefodion archfarchnadoedd yn gymharol â chynnydd y gofod llawr.
6. Mae estyniadau o 33% o ardal llawr gwerthu yn creu cynnydd o 10% mewn trafodion.
7. Mae'r safon anweithredol yn cynnwys parcio i gyflogeion.
8. Gellir llacio gofynion parcio mewn canolfannau gwasanaeth cyflym e.e. teiars, egsóts, MOT ac ati.
9. Pan fo safleoedd gwerthu ceir yn cynnwys ardaloedd arddangos allanol, bydd angen mwy o lefydd parcio.
10. Cedwir parcio i Bobl Anabl. Cyfeirier at Atodiad 1.
11. O ran parcio beiciau a beiciau modur cyfeirier at Atodiadau 4 a 5.
12. Yn ogystal â gofynion parcio gweithredol at ddibenion gwasanaethu, rhaid bod bob amser ddigon o le i ganiatáu am wasanaethu cerbydau i gael mynediad a gadael cwrtill ardal wasanaethu'r safle wrth yrru ymlaen.
13. Bydd siopau cyfleuster mewn gorsafoedd petrol yn denu cwsmeriaid nad ydynt hefyd yn prynu petrol ac felly bydd angen mwy o lefydd parcio. Rhaid i'r gofyniad ychwanegol i hyn gael ei asesu megis i siop fechan.

10.5. Warysau Diwydiant a Diwydiannol

Ardaloedd A-C

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Diwydiant Bach (<100 msg)	1 man fan	1 lle
Diwydiant Bach (<235 msg)	1 man fan	2 le
Diwydiant	Gweler Nodyn 5	1 lle i bob 120 msg
Diwydiant Technegol lawn	Gweler Nodyn 5	1 lle i bob 35 msg
Warws Ddiwydiannol	Gweler Nodyn 5	1 lle i bob 140 msg
Warysau Storio	1 man masnachol i bob 500msg	Dim
Canolfannau Dosbarth (<1,000 msg)	35% o GLIG	1 lle i bob 120 msg
Canolfannau Dosbarth (>1,000 msg)	25% o GLIG	1 lle i bob 120 msg

Ardaloedd D-E

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Diwydiant Bach (<100 msg)	1 man fan	1 lle
Diwydiant Bach (<235 msg)	1 man fan	2 le
Diwydiant	Gweler Nodyn 5	1 lle i bob 80 msg
Diwydiant Technegol lawn	Gweler Nodyn 5	1 lle i bob 20 msg
Warws Ddiwydiannol	Gweler Nodyn 5	1 lle i bob 140 msg
Warysau Storio	1 man masnachol i bob 500msg	Dim
Canolfannau Dosbarth (<1,000 msg)	35% o GLIG	1 lle i bob 80 msg
Canolfannau Dosbarth (\geq 1000 msg)	25% o GLIG	1 lle i bob 80sqm msg

Nodiadau ar safonau parcio Warysau Diwydiant a Diwydiannol

1. Dylai cerbydau allu mynd i mewn ac allan o'r safle wrth yrru ymlaen.
2. Bydd llacio'n y rheolau o ran lle gweithredol pan wneir trefniadau gwasanaethu arbennig.
3. Mae parcio i ymwelwyr yn rhan o barcio anweithredol.
4. O ran safleoedd â hyd at 235msg o ardal llawr gros caniateir cynnydd o 20% heb fod angen parcio ychwanegol. Gall y lwfans hyn ond â chael ei wneud a rhaid i unrhyw barcio a waredir gan ei wneud yn iawn amdano.
5. Gofynion gweithredol:

GLIC msg	Isafswm msg	GLIC msg	Isafswm msg	GLIC msg	Isafswm msg
100	70	500	100	1,001	150
250	85	1,000	150	2,000	200

Os yw'n fwy na 2,000 msg GLIC yr ardal weithredu leiaf ofynnol yw 10% o GLIG.

6. Diffinnir y cyfyngiad y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir sef 235 msg fel y maint mwyaf i unedau i annog cwmnïau newydd sydd angen safleoedd maint garej. Diffinnir unedau mwy yn "Ddiwydiant".
7. Mae diwydiannau o natur dechnegol iawn yn gwmnïau sy'n arbenigol mewn arloesi technegol fel arfer yn seiliedig ar ficrobroseswyr.
8. Os yw'r safle'n cael ei ddefnyddio fel depo dosbarthu, rhaid bod hefyd ddigon o le i gerbydau masnachol sy'n debygol o gael eu parcio yno dros nos.
9. Cedwir parcio i Bobl Anabl. Gweler Atodiad 1.
10. O ran parcio beiciau a beiciau modur cyfeirier at Atodiadau 4 a 5.

10.6. Mannau Adloniant

Ardaloedd A-C

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Canolfannau Chwarae Plant	1 lle i bob 3 aelod o staff	1 lle i bob 20 msg o ardal chwarae
Neuaddau Ymgynnull (Masnachol) e.e. Bingo	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 8 msg
Neuaddau Ymgynnull (Cymdeithasol) e.e. Clwb Didrwydded, Canolfan Gymunedol	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 10 msg
Sinemâu, Theatrau a Chanolfannau Cynadledda	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 5 sedd
Stadiymau	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 15 sedd

ARDALOEDD C a D

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Canolfannau Chwarae Plant	1 lle i bob 2 aelod o staff	1 lle i bob 15 msg o ardal chwarae
Neuaddau Ymgynnull (Masnachol) e.e. Bingo	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 8 msg
Neuaddau Ymgynnull (Cymdeithasol) e.e. Clwb Didrwydded, Canolfan Gymunedol	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 10 msg
Sinemâu, Theatrau a Chanolfannau Cynadledda	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 3 sedd
Stadiymau	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 15 sedd

Nodiadau ar safonau parcio Llefydd Adloniant

1. Yn ogystal â gofynion parcio gweithredol at ddibenion gwasanaethu, rhaid bod bob amser ddigon o le i ganiatáu am wasanaethu cerbydau i gael mynediad a gadael cwrtil ardal wasanaethu'r safle wrth yrru ymlaen.
2. Rhaid bod darpariaeth briodol i bobl anabl.
3. O ran parcio beiciau a beiciau modur cyfeirier at Atodiadau 4 a 5.

10.7. Gwestai a Bwytaï

ARDALOEDD A-C

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Gwestai	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 man i bob ystafell wely
Tafarndai a Chlybiau Trwyddedig	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 lle i bob 5 msg o ardal gyhoeddus gan gynnwys ardal weini
Bwytaï	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 lle i bob 7 msg o ardal fwyta
Caffis a Bwytaï Gyrru Drwodd (gweler Nodyn 5)	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 lle i bob 14 msg o ardal fwyta
Siopau cludfwyd poeth	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob staff amhreswyl a digon o lefydd i gwsmeriaid barcio ar y stryd gerllaw
Caffis Cludiant	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 man masnachol i bob 2 sedd

ARDALOEDD D a E

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Gwestai	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 man i bob ystafell wely
Tafarndai a Chlybiau Trwyddedig	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 lle i bob 3 msg o ardal gyhoeddus gan gynnwys ardal weini
Bwytaï	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 lle i bob 7 msg o ardal fwyta
Caffis a Bwytaï Gyrru Drwodd (gweler Nodyn 5)	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 lle i bob 14 msg o ardal fwyta
Siopau cludfwyd poeth	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob staff amhreswyl a digon o lefydd i gwsmeriaid barcio ar y stryd gerllaw
Caffis Cludiant	1 man cerbyd masnachol	1 man i bob 3 staff amhreswyl ac 1 man masnachol i bob 2 sedd

Nodiadau o ran Gwestai a Bwytai

1. Dylai cyfleusterau i bobl nad ydynt yn drigolion gael eu hasesu drwy roi'r categori priodol ar waith. Dylai fod lwfans pan fo cyfleusterau'n cael eu rhannu.
2. Mae'r ystod yn y gofynion parciau rhwng ardaloedd yn caniatáu am wahaniaeth rhwng tafarndai 'gwledig' a thafarndai 'maestrefol' sy'n debygol o gael mwy o bobl yn cerdded i mewn.
3. Caiff y gofyniad parcio ei lacio i dafarndai a adeiladwyd cyn 1914 i ganiatáu am ailddatblygu neu estyn hyd at 20% o'r ardal llawr gros heb fod angen mwy o lefydd parcio.
4. Gallai'r gofyniad anweithredol i fwytai a chaffis mewn ardaloedd siopau sefydledig gael ei lacio os gellir dangos eu bod yn 'ychwanegol' i'r ardal siopa neu pan fo bwytai o'r fath yn cael eu defnyddio gyda'r nos yn bennaf pan fo digon o lefydd parcio cyfagos. Fodd bynnag, rhaid bod digon o lefydd parcio i staff yn y cefn. (Ddim yn berthnasol i gaffis cludiant).
5. Rhaid bod mynediad arwahanedig mewnol i fwytai gan gynnwys cyfleusterau gyrru drwodd i archebu a chasglu bwyd yn y car at y diben hwn a rhaid bod o leiaf 6 lle aros.
6. Yn ogystal â gofynion parcio gweithredol at ddibenion gwasanaethu, rhaid bod bob amser ddigon o le i ganiatáu am wasanaethu cerbydau i gael mynediad a gadael cwrtill ardal wasanaethu'r safle wrth yrru ymlaen.
7. Rhaid bod darpariaeth briodol i bobl anabl.
8. O ran parcio beiciau a beiciau modur cyfeirier at Atodiadau 4 a 5.
9. Rhaid i bob gwesty ddarparu ar gyfer man gollwng / casglu i daccsis (o leiaf 2 fae i bob 100 ystafell wely).
10. Rhaid i bob gwesty ddarparu llefydd i fysis (o leiaf 1 bae i bob 100 ystafell wely).

10.8. Sefydliadau Cymunedol

POB ARDAL

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Ysbytai (Gweler Nodyn 1)	Cerbydau hanfodol yn ôl y gofyn	2.5 man i bob gwely
Canolfannau Iechyd a Meddygfeydd	1 lle i bob ymarferydd (Gweler Nodyn 2) (gweler Nodyn 2)	1 lle i bob 3 staff ategol (1 lle i bob 2 yn Ardaloedd 4 a 5) a 3 lle i bob ymarferydd
Eglwysi ac Addoldai	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 10 sedd neu 1 lle i bob 8 msg o ofod llawr gweddio (gweler Nodyn 3)
Capeli Gorffwys	3 man cerbyd masnachol	Megis Eglwysi ac ati.
Cartrefi Angladd	3 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 2 aelod o staff
Canolfannau Hamdden Cyhoeddus	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 2 ddefnyddiwr ac 1 lle i bob 3 gwylwr
Clybiau Ffitrwydd, Clybiau Hamdden a Chlybiau Chwaraeon (Gweler Nodyn 6)	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 2 ddefnyddiwr y cyfleuster
Marinas	1 lle car a threlar	1 lle i bob angorfa
Llyfrgelloedd	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 45 msg

Nodiadau ar safonau parcio Sefydliadau Cymunedol

1. Byddai lefel y ddarpariaeth yn briodol ar gyfer Ysbytai Ardal aciwt a chymdogol. O ran mathau eraill o ysbytai gallai lefel is o ddarpariaeth fod yn briodol.
2. Ymarferwyr yn cynnwys meddygon, deintyddion, nyrsys, ymwelydd iechyd ac ati.
3. Bwriedir i'r ystod hon adlewyrchu dalgylchoedd gwahanol eglwysi ac addoldai. Byddai un sy'n gwasanaethu ardal leol angen llai o ddarpariaeth nag un sy'n gwasanaethu ardal eang.
4. Rhaid ystyried darparu ardal i fysis lle y bo'n briodol a pharcio i feiciau a beiciau modur. Rhaid cael lle parcio bws mewn canolfannau hamdden.
5. Yn ogystal â gofynion parcio gweithredol at ddibenion gwasanaethu, rhaid bod bob amser ddigon o le i ganiatáu am wasanaethu cerbydau i gael mynediad a gadael cwrtil ardal wasanaethu'r safle wrth yrru ymlaen.
6. Rhaid asesu y tŷ clwb a'r bwyty'n ar wahân bob tro.
7. Cedwir parcio i Bobl Anabl. Gweler Atodiad 1.
8. O ran parcio beiciau a beiciau modur cyfeirier at Atodiadau 4 a 5.

10.9. Sefydliadau Addysgol

ARDALOEDD A-C

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Meithrinfeydd a Crèches Dydd (adeilad newydd)	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 2 staff llawn amser
Meithrinfeydd a Crèches Dydd (eiddo a addaswyd)	Wedi'i gynnwys yn y gofyniad anweithredol	1 lle i bob 2 staff llawn amser (gweler Nodyn 3)
Ysgolion Meithrin / Babanod / Cynradd	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob aelod o'r staff addysgu a 3 lle i ymwelwyr
Ysgolion Uwchradd	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob aelod o staff addysgu, 1 lle i bob 2 staff atodol, 1 lle i bob 20 myfyriwr 17 oed a 3 lle parcio i ymwelwyr Llefydd parcio bws yn ôl y gofyn
Colegau Addysg Bellach / Uwch	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob aelod o staff addysgu, 1 lle i bob 2 staff atodol, 1 lle i bob 8 myfyriwr a 5 lle parcio i ymwelwyr Llefydd parcio bws yn ôl y gofyn

ARDALOEDD D a E

Math y Datblygiad	Gweithredol	Anweithredol
Meithrinfeydd a Crèches Dydd (adeilad newydd)	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob 2 staff llawn amser
Meithrinfeydd a Crèches Dydd (eiddo a addaswyd)	Wedi'i gynnwys yn y gofyniad anweithredol	1 lle i bob 2 staff llawn amser
Ysgolion Meithrin / Babanod / Cynradd	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob aelod o staff addysgu, 1 lle i bob 2 staff atodol, a 5 lle parcio i ymwelwyr
Ysgolion Uwchradd	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob aelod o staff addysgu, 1 lle i bob 2 staff atodol, 1 lle i bob 10 myfyriwr 17 oed a 3 lle parcio i ymwelwyr Llefydd parcio bws yn ôl y gofyn
Colegau Addysg Bellach / Uwch	1 man cerbyd masnachol	1 lle i bob aelod o staff addysgu, 1 lle i bob 2 staff atodol, 1 lle i bob 5 myfyriwr a 5 lle parcio i ymwelwyr Llefydd parcio bws yn ôl y gofyn

Nodiadau o ran Sefydliadau Addysgol

1. Yn ogystal â'r parcio anweithredol rhaid darparu ardal ar gyfer casglu a gollwng plant ysgol.
2. Yn achos Meithrinfeydd Dydd mewn eiddo a addaswyd dylid ystyried argaeledd digonedd o le ymyl y ffordd (h.y. parcio anghyfyngedig).
3. Dylid asesu hyn pan fo'r feithrinfa'n llawn. Os cyflogir staff rhan amser dylid eu hagregu'n rhai llawn amser.
4. Mae profiad wedi dangos y bydd angen o leiaf 15 man parcio car i'r rhan fwyaf o fathau eraill o ysgolion. Gallai eithriadau i hyn gael eu nodi i ysgolion uwchradd arbenigol (e.e. Crefyddol neu Gymraeg) gyda dalgylchoedd mawr lle gallai nifer lai fod yn ddigon, neu ysgolion mwy ymhob categori lle gallai cynnydd sylweddol (hyd at 50) fod yn ddymunol. O ran bysus, dylid darparu digonedd o lefydd oddi ar y stryd i'r holl wasanaethau y mae gweithredwr yr ysgol newydd yn eu rhagweld ar gyfer y disgyblion ac eithrio gwasanaeth bws sy'n pasio.
5. Dylai'r ardal barcio gynnwys cyfleuster i gerbydau droi heb yrru'n ôl. Mewn amgylchiadau eithriadol byddai ardal cylchred/troi ar wahân i'r ardaloedd mae disgyblion yn cerdded yn dderbyniol.
6. Pan fo llawer o fyfyrwyr rhan amser, cynyddir y safon i Golegau Addysg Bellach/Prifysgolion i 1 i bob 3 myfyriwr.
7. Lle defnyddir yr ysgol at ddibenion deul cymdeithasol ac addysg oedolion, mae modd defnyddio iard chwarae arwyneb caled i barcio.
8. Diffiniadau ysgolion at ddiben y safonau hyn:-
 - Meithrinfa - grwpiau cyn oedran ysgol 3-5 oed yn aml mewn eiddo preswyl wedi'i addasu.
 - Babanod - ysgolion ffurfiol 3-7 oed
 - Cynradd - ysgolion i blant 5 neu 7 i 11 oed
 - Uwchradd - ystod oedran 11 i 18 oed
 - Colegau Addysg Uwch neu Bellach - yn cynnwys colegau dosbarthiadau chweched
9. Rhaid bod darpariaeth briodol i bobl anabl.
10. Rhaid bod darpariaeth briodol i rieni ollwng/casglu plant yn ôl amgylchiadau lleol ac unrhyw gynllun teithio ysgol. Rhaid i ardaloedd gollwng gael eu lleoliad fel nas peryglir disgyblion sy'n cerdded neu'n beicio i'r ysgol.
11. O ran parcio beiciau a beiciau modur cyfeirier at Atodiadau 4 a 5.

11. Atodiadau

11.1. Atodiad 1 - Mynediad i Bobl Anabl Nodiadau Canllaw i Ymgeiswyr

Bellach mae angen i bob adeilad cyhoeddus, lle y bo'n rhesymol ac yn ymarferol, fod yn hygyrch ac i gael cyfleusterau i bobl anabl. Mae gofynion y Ddeddf Pobl â Salwch Cronig ac Anabl 1970 a Deddf Pobl â Salwch Cronig, Anabl (Diwygiad) 1976 a'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 yn berthnasol i ystod eang o adeiladau gan gynnwys: swyddfeydd, siopau, banciau, swyddfeydd post, canolfannau hamdden, gwestai, bwytai a thafarndai, theatrau a sinemâu, canolfannau arddangos, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd, neuaddau cymunedol ac eglwys; ynghyd â phob lle addysgu, gan gynnwys ysgolion, prifysgolion a cholegau. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a gall mathau eraill o adeiladau fod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf.

Rhaid i fannau parcio i bobl anabl hefyd gael eu dynodi'n unol â Rheoliadau Adeiladu Rhan M a'r Dogfennau Cymeradwy a dylai'r Rheoliadau Adeiladu roi canllawiau dylunio ar ddulliau dylunio a fyddai'n cydymffurfio â'r Rheoliadau.

Wrth gyhoeddi dogfen gynhwysfawr ar safonau parcio, cydnabuwyd bod y gofyniad hanfodol o roi mynediad i bobl anabl i adeiladau'n rhan annatod o drefniadau parcio felly paratowyd yr Atodiad hwn i dynnu sylw datblygwyr at y materion ategol hyn.

Ar ôl archwilio nifer o ganllawiau a roddwyd gan nifer o gyrff ac awdurdodau, oll yn cwmpasu'r un tir i raddau, argymhellwyd defnyddio'r cyhoeddiadau canlynol fel canllaw:

“Reducing Mobility Handicaps”

Canllawiau wedi'u cyhoeddi gan y Sefydliad Priffyrdd a Thrafnidiaeth, 6 Endsleigh Street, Llundain, WCIH ODZ.

“Planning and Access for Disabled People”

Canllaw arfer da a gyhoeddwyd gan yr Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, Blwch SP 236, Wetherby, LS23 7NB.

Mae'r ddogfen gyntaf yn arbennig o fanwl ar ystyriaethau allanol datblygiad tra bod yr ail yn canolbwyntio mwy ar y System Gynllunio, fodd bynnag dylid eu darllen a'u rhoi ar waith gyda'i gilydd.

Yn ogystal â chynnwys y ddwy ddogfen hyn, rhaid i ddatblygwyr ystyried yn ddyledus yr agweddau canlynol, sy'n bwysig i bobl anabl.

- A. Arwyddion llwybrau cerddwyr - ar ôl canfod y lleoliad mwyaf cyfleus i barcio cerbydau i bobl anabl, mae'n hanfodol fod system glir o arwyddion yn cael eu postio i'r fynedfa briodol i bobl anabl gael ei llunio a'i rhoi ar waith gan y datblygwr.
- B. Dylai graddiant unrhyw ramp fod cyn lleied â phosibl. Nid yw defnyddio'r term 'uchafswm graddiant 1 ymhob 12' yn dderbyniol i bobl anabl, ac eithrio pan nad oes unrhyw fodd osgoi hyn. Dylai datblygwyr ystyried yn ofalus iawn y lefelau cymharol o fannau parcio a lefelau llawr gorffenedig ar gam cynnar yn y broses gynllunio fel bod llwybr gwastad neu bron yn wastad (graddiant o lai na 5% os yn bosibl) yn gallu cael ei roi ar waith rhwng y ddau, os yn bosibl.
- C. Trafodir yr anawsterau a achosir i bobl anabl wrth fynd i mewn i adeilad gan y dogfennau ond gall yr oedi wrth agor drysau ac ati achosi cryn anghyffordusrwydd ac felly dylai'r datblygwr ystyried rhoi canopi dros pob mynedfa at ddefnydd pobl anabl.

Parcio A Gedwir Y Bobl Anabl

Argymhellir i lefydd parcio mewn lleoliadau priodol, o fewn 50 metr i'r cyfleuster a wasanaethir gan y maes parcio ac sy'n ddigonol o ran maint a nifer, gael eu darparu i bobl ag anableddau. Dylai maint pob lle parcio a lefel y ddarpariaeth fod yn unol ag argymhellion dogfen yr Adran Drafndiaeth 'Inclusive Mobility', 'A Guide to Best Practice on Access to Pedestrian and Transport Infrastructure' (2002). Ond mae'r ddogfen ganllaw hon yn destun adolygu ac mae'n debygol o gael ei diweddarau gyda chynnwys a chwmpas gwell maes o law. Os caiff y safonau parcio a argymhellir i bobl anabl gael eu diwygio o ganlyniad i'r adolygiad hwn, caiff y CCA ei ddiwygio'n unol â hwy.

Maint y llefydd a argymhellir i ddeiliaid Bathodyn Glas yw:-

- ran meysydd parcio sy'n gysylltiedig â safleoedd cyflogaeth presennol:
 - 2% o gapasiti'r maes parcio, gydag o leiaf un lle (rhaid i fannau i gyflogeion anabl fod yn ychwanegol at y rhai a argymhellir uchod, gellid cadw lle, er enghraifft, drwy farcio lle â rhif cofrestru penodol).
- ran meysydd parcio sy'n gysylltiedig â safleoedd cyflogaeth newydd:
 - Dylid dynodi 5% o gapasiti'r maes parcio (i gynnwys cyflogeion ac ymwelwyr).
- ran meysydd parcio ardaloedd siopa neu gyfleusterau hamdden a llefydd sy'n agored i'r cyhoedd;
 - leiaf un lle i bob cyflogai sy'n yrrwr anabl a 6% o gapasiti'r maes parcio i yrwyr anabl sy'n ymweld.
 - Gallai fod angen i nifer y llefydd dynodedig fod yn fwy mewn gwestai a stadiymau chwaraeon sy'n arbenigol mewn croesawu grwpiau o bobl anabl.
- ran meysydd parcio gorsafoedd trên;
 - leiaf un lle i bob cyflogai'r rheilffordd sy'n yrrwr anabl ac:
 - I faes parcio â llai nag 20 lle, o leiaf un lle anabl I faes parcio â 20-60 lle, o leiaf ddau le anabl
 - I faes parcio â 61-200 lle, 6% o'r capasiti gydag o leiaf dri lle anabl
 - I faes parcio â mwy na 200 lle, 4% o'r capasiti a phedwar lle anabl.

Dylunio Lle Parcio i Bobl Anabl


Parcio ar y stryd sy'n alinio â'r cwrbyn: o fewn y man parcio wedi'i farcio, dylid darparu man hirsgwar clir sydd o leiaf 6.6m o hir gan 2.7m o led (3.6m fyddai orau). Mae'r lled ychwanegol yn rhoddi man mynediad ar ochr y cwrbyn neu'r stryd. Parcio ar y stryd ar ongl i'r cwrbyn: dylai'r man parcio fod o leiaf 4.2m o hyd gan 3.6m o led. Argymhellir i fannau parcio wrth ymyl y ffordd fod mewn lle mae graddiant a chrymder ar lefel resymol e.e. 1:50. Mae ffordd â chrymder serth yn peri anawsterau i ddefnyddwyr cadair olwyn sydd â lifft ochr yn eu cerbyd. Lle mae mannau a dynodir ar y stryd ar lefel wahanol i'r palmant cyfagos, dylai cyrbau is gael eu rhoi i ddefnyddwyr cadair olwyn, gyda marcio botymog priodol. Dylid cofio bod parcio cerbydau'n rhannol ar y palmant yn un yn un o'r prif destunau pryder i bobl ddall ac â nam ar y golwg yn yr amgylchedd cerddwyr. Parcio oddi ar y stryd: dylai llefydd fod o leiaf 4.8m o hir gan 2.4m o led gyda lle ychwanegol:

1. Pan fo llefydd yn gyfochrog ag eil fynediad a bod mynediad ar gael o ochr hyd ychwanegol sydd o leiaf 1.8m, neu
2. Pan fo'r mannau'n sythlin â'r eil fynediad, lled ychwanegol sydd o leiaf 1.2m bob ochr. Pan fo llefydd yn gyfagos gall yr un 1.2m wasanaethu'r ddwy ochr. Dylai hefyd fod ardal ddiogelwch

1,200mm o led ar ochr mynediad y cerbyd pob lle i roi mynediad i'r bwt i ddefnyddio harnais ôl.

Marciau ac arwyddion lle

Dylai llefydd ar y stryd gael eu dynodi gan arwyddion yn unol â TSRGD; rhaid i arwyddion ffordd hefyd gydymffurfio â TSRGD. Dylai fod gan bob lle arwydd wedi'i godi ar ben y bae i sicrhau os bydd eira neu ddail yn gorchuddio'r marciau ffordd, fod pwrpas y lle parcio dal yn amlwg.




(Ffynhonnell: Symudedd Cynhwysol yr Adran Drafnidiaeth 2005)

Dylai llefydd parcio i bobl anabl mewn lleoliadau oddi ar y stryd gael eu marciau gyda llinellau melyn a symbol cadair olwyn melyn yn y lle parcio. Dylai arwydd, neu os yn briodol arwyddion, gael eu gosod

CCA Safonau Parcio - Drafft ar gyfer Ymgynghori (Rhagfyr 2018)

ar fynedfa'r maes parcio i gyfeirio gyrwyr anabl at lefydd parcio dynodedig a ddylai, os yw'r maes parcio heb do, hefyd fod ag arwyddion wedi'u codi ar ben y llefydd a gadwyd. Dylai arwyddion yn y maes parcio ddangos y ffordd fwyaf cyfleus at y cyfleusterau a wasanaethir gan y maes parcio gyda phellter priodol at y cyfleusterau hynny. Dylai'r marciau gydymffurfio â Safon Brydeinig BS8300:2001 "Dylunio adeiladau a'r ffordd ddynesu atynt i ddiwallu anghenion pobl anabl - Cod Ymarfer' yn ogystal â'r argymhellion yn nodyn 'Inclusive Mobility' (Gweler y nodyn uchod), 'A Guide to Best Practice on Access to Pedestrian and Transport Infrastructure' (2002) yr Adran Drafndiaeth.


Dylid dynodi llefydd parcio i bobl anabl ar y stryd gan arwyddion a'u marcio i gydymffurfio â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig (1994). Dylai fod gan bob lle arwydd wedi'i godi ar ben y lle i sicrhau bod diben y lle hwnnw dal yn amlwg os bydd eira neu ddail yn cuddio'r marciau ffordd.



11.2. Atodiad 2 – Cynllun Ardaloedd Parcio

Dimensiwn man parcio safonol yw 2.6m x 4.8m, ond rhaid bod digon o ofod o gylch hwn i roi mynediad diogel a chyfleus i gerbydau. Felly fel arfer bydd angen i dramwyfa eiddo preswyl fod o leiaf 3.6m o led. O ran tramwyfeydd dwbl cynyddir y lled i 6.0m. Rhaid i bob lle parcio wrth y lôn gerbydau neu flaen garej fod yn 6.0m i alluogi llwytho a dadlwytho o gerbydau neu i roi mynediad hawdd i'r garej. Hefyd, mae cynlluniau parcio gwahanol megis cyfochrog, o fewn llinell neu ar ongl gyda gofynion gofod cyffredinol fymryn yn wahanol ac mae rhai enghreifftiau a dimensiynau gofod wedi'u dangos isod.

Ffyrdd Eraill O Drefnu 12 Lle



CCA Safonau Parcio - Drafft ar gyfer Ymgynghori (Rhagfyr 2018)

Mannau Cerbydau – Rhaid i'r lle hwn fod yn ddigon o faint i gael ei leoli mewn modd y gellir symud y cerbyd ar y safle e.e. mae angen o leiaf 105 msg ar y lori anhyblyg 12m fel y gall adael safle wrth yrru ymlaen. Mae mwy o fanylion am arfer dylunio da yn Safonau Dylunio'r Awdurdod Priffyrdd 'Designing for Deliveries', Y Gymdeithas Gludiant 1998.

- Cerbydau Cymalog 16.5 m x 2.55 m
- Cerbyd Cymalog llwytho Isel 18.0 m x 2.55 m
- Cerbydau Anhyblyg 12.0 m x 2.55 m
- Bysus a Choetsis (dwy echel) 13.5 m x 2.55 m
- Bysus a Choetsis (tair echel) 15.0 m x 2.55 m
- Bysus a Chaetsys (Anhyblyg) 18.75 m x 2.55 m
- Cerbydau â chynhwysydd rhewi lled mwyaf a ganiateir 2.65 m

Dylai cerbydau allu mynd i mewn ac allan o'r safle wrth yrru ymlaen.

Mae mwy o ganllawiau ar gynlluniau parcio yn y Llawlyfr i Strydoedd.

11.3. Atodiad 3 - Tirlunio

Dylid defnyddio plannu mewn meysydd ceir i leddfu undonedd ardaloedd palmentog: i ddiffinio neu sgrinio llefydd parcio, ac i roddi nodweddion gweledol. Ystyrir tirlunio'n rhan graidd o ddylunio ardaloedd parcio, nid ôl-feddwl. Dylai'r gwair, planhigion llawr, perthi a choed mewn meysydd parcio fod yn rhai sy'n gwrthsefyll llygredd, ac yn achos coed ni ddylent fod yn fath sy'n colli llawer o ddail, ffrwythau na changhennau. Dylid yn sicr osgoi pisgwydd, gwallt Mair a chastan. Dylid gofalu nad yw plannu'n cuddio llinellau gweld wrth gyffyrdd nac yn lleihau gwyliadwriaeth naturiol.

Dylai'r planhigion a ddewisir adlewyrchu'r cymeriad a'r llystyfiant lleol a defnyddio rhywogaethau brodorol a mwy addurniadol ac egsotig. Dylid ystyried llawn dwf o ran adeileddau cyfagos. Rhaid i ddetholiad o blanhigion osgoi planhigion sy'n amgaw sbwriel.

Mae canllaw defnyddiol ar gyfer math y rhywogaeth ar gael ar wefan a luniwyd gan y Gymdeithas Masnachwyr Garddwriaethol mewn ymgynghoriad â'r Sefydliad Tirwedd yn www.plantspec.org.uk

Mewn rhai amgylchiadau, gallai tirlunio caled fod yn fwy priodol e.e. blociau concriid, briciau, slabiau palmant, cerrig.

Mae amrywiaeth eang o ddeunyddiau arwyneb ar gael, y gellir eu defnyddio i feysydd parcio. Bydd dewis pa un i'w ddefnyddio mewn sefyllfa benodol yn dibynnu ar y dwysedd defnydd a ragwelir, ymddangosiad a ddymunir a faint o arian sydd ar gael ar gyfer gosod a chynnal a chadw.

Dylai dyluniad a thirlunio meysydd parcio ystyried y canllaw yn y canllawiau asesu gan fenter parcio diogelach Park Mark Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yn ogystal â gofynion mwy cyffredinol Polisi Cynllunio Cymru Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio (TAN12).

11.4. Atodiad 4 - Safonau Parcio Beiciau

Mae parcio arhosiad byr ac arhosiad hir yn cael eu hystyried yn ar wahân yn y tablau canlynol. Mae parcio arhosiad byr yn bodloni anghenion cwsmeriaid ac ymwelwyr eraill â datblygiad, tra bod parcio arhosiad hir yn berthnasol i anghenion staff. Dylid hefyd annog staff i feicio i'r gwaith drwy osod cyfleusterau ychwanegol megis loceri, ardaloedd newid a chafodydd. Gall standiau beic dan gysgod hefyd fod yn elfen bwysig wrth annog y defnydd o feiciau.

Dylai llefydd parcio beiciau fod mewn lleoliad diogel a chyfleus. Dylid hefyd gofalu sicrhau nad yw cyfleusterau parcio beiciau'n cael eu lleoli mewn llefydd lle y gallent beri rhwystr i gerddwyr, pobl anabl ac yn benodol pobl â nam ar y golwg.

Dylai arwyddion priodol bob amser gael eu gosod i ddynodi lleoliad parcio beiciau arhosiad byr.

Am resymau diogelwch, dylid lleoli cyfleusterau parcio beiciau mewn ardaloedd sy'n weledol ac felly'n caniatáu gwyliadwriaeth anffurfiol. Mewn rhai achosion gallai angen i hyn gael ei ategu drwy gyflwyno TCC neu ddulliau diogelwch eraill.


Mae canllawiau ar ddylunio llefydd parcio i feiciau ar gael ar Daflen Ymgynghorol Traffig yr Adran Drafnidiaeth 5/02 "Key Elements of cycle parking" ac yn Nhaflen Wybodaeth Sustrans FF37 "Cycle Parking! Ond mae rac parcio safonol Sheffield i'w weld isod.

Rhaid i bob datblygiad preswyl fod yn hygyrch i feiciau a rhaid i storfa feiciau fod yn ffactor wrth ddylunio annedd. Mewn amgylchiadau priodol, gallai cyfleusterau cymunedol cyfleus gael eu darparu. Mae canllawiau ar y pwnc hwn ar gael yn y Llawlyfr i Strydoedd.

Pan fo datblygiad mewn canolfan fasnachol ac nad yw'n briodol am reswm penodol i ddarparu cyfleusterau beicio, dylid gofyn i'r datblygwr roi cyfraniad ariannol at ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy.

Bydd darparu cyfleusterau i feicwyr yn ystyriaeth benodol pan dderbynnir Cynllun Teithio.

Dyluniad Rac Beiciau Sheffield Arferol



Isafswm pellter rhwng rhesi o raciau 2m.

CCA Safonau Parcio - Drafft ar gyfer Ymgynghori (Rhagfyr 2018)

Math y Datblygiad	Darpariaeth Parcio BEiciau	
	Arhosiad Hir	Arhosiad Byr
a) Preswyl		
Fflatiau	1 stand i bob 5 ystafell wely	Dim gofyniad
Llety myfyrwyr pwrpasol	1 stand i bob 2 ystafell wely	Dim gofyniad
Llety hunangynhaliol i bobl hŷn	1 stand i bob 20 ystafell wely	1 stand i bob 20 gwely
b) Swyddfeydd		
Swyddfeydd	1 stand i bob 200 msg	1 stand i bob 1,000 msg
Canolfannau Galwadau	1 stand i bob 150 msg	1 stand i bob 1,000 msg
c) Siopau		
Siopau <200 msg	1 stand i bob 100 msg	1 stand i bob 100 msg
Siopau 201 msg - 1,000 msg	1 stand i bob 500 msg	1 stand i bob 500 msg
fwyd	1 stand i bob 500 msg	1 stand i bob 750 msg
Archfarchnadoedd	1 stand i bob 500 msg	1 stand i bob 500 msg
	Bwyd Nid yn siop	
d) Warws Fanwerthu		
Warws Fanwerthu nid ar gyfer bwyd	1 stand i bob 500 msg	1 stand i bob 1,000 msg
Warysau Talu a Chario	1 stand i bob 500 msg	Dim gofyniad
Marchnadoedd awyr agored	1 stand i bob 500 msg	1 stand i bob 500 msg
Garejys	1 stand i bob 250 msg	Dim gofyniad
Safleoedd Gwerthu Ceir	1 stand i bob 1,000 msg	Dim gofyniad
e) Warysau Diwydiant a Diwydiannol		
Diwydiant	1 stand i bob 500 msg	1 stand i bob 1,000 msg
Warysau Diwydiannol a Chanolfannau Storio	1 stand i bob 500 msg	Dim gofyniad
f) Mannau Adloniant		
Neuaddau Ymgynnull	1 stand i bob 10 staff	1 stand i bob 40 sedd
Masnachol	Yn rhan o arhosiad byr	
Cymdeithasol		1 stand i bob 30 msg
Sinemâu, Theatrau a Chanolfannau	1 stand i bob 10 staff	1 stand i bob 30 sedd
CYnadledda		
Stadiymau	1 stand i bob 10 staff	1 stand i bob 100 sedd
g) Gwestai a Bwytai		
Gwestai a Thafarndai	1 stand i bob 5 ystafell wely	1 stand i bob 4 msg o lawr gofod cyhoeddus
Bwytai a Chaffis (pob math)	1 stand i bob 10 staff	Dim gofyniad
h) Sefydliadau Cymunedol		
Ysbytai	1 stand i bob 20 gwely	1 stand i bob 20 gwely
Canolfannau Iechyd a Meddygfeydd	Yn rhan o arhosiad byr	1 stand i bob ystafell ymgynghori
Eglwysi ac Addoldai	Yn rhan o arhosiad byr	1 stand i bob 50 msg o lawr gofod cyhoeddus
Canolfannau Hamdden Cyhoeddus	1 stand i bob 10 staff	1 stand i bob 50 msg o lawr gofod cyhoeddus

CCA Safonau Parcio - Drafft ar gyfer Ymgynghori (Rhagfyr 2018)

Clybiau Ffitrwydd	1 stand i bob 10 staff	1 stand i bob 25 msg o lawr gofod cyhoeddus
Clybiau Hamdden a Chlybiau Chwaraeon	1 stand i bob 10 staff	1 lle i bob 10 defnyddiwr y cyfleuster
Llyfrgelloedd	1 stand i bob 10 staff	1 stand i bob 30 msg o lawr gofod cyhoeddus
Math y Datblygiad	Darpariaeth Parcio Beiciau	
	Arhosiad Hir	Arhosiad Byr
i) Sefydliadau Addysgol		
Meithrinfeydd a Crèches Dydd	Yn rhan o arhosiad byr	1 stand i bob 30 plentyn
Ysgolion Meithrin, Babanod a Chynradd	1 stand i bob 5 staff ac 1 stand i bob 20 plentyn	1 stand i bob 100 plentyn
Ysgolion Uwchradd a Cholegau Addysg Bellach	1 stand i bob 5 staff ac 1 stand i bob 6 myfyriwr 17 oed	1 stand i bob 100 plentyn
j) Cyfleusterau Trafnidiaeth		
Meysydd Parcio Parcio a Theithio	1 stand diogel i bob 20 man parcio car	Dim gofyniad

11.5. Atodiad 5 - Safonau Parcio Beiciau Modur

Dylai llefydd parcio i feiciau modur fod mewn lleoliad diogel a chyfleus lle na all cerbydau eraill rwystro nbeu darfu ar yr ardal parcio beiciau modur.

Mae beiciau modur yn aml yn cael eu dwyn. Am resymau diogelwch, dylid lleoli cyfleusterau parcio beiciau modur mewn ardaloedd sy'n weledol ac felly'n caniatáu gwyliadwriaeth anffurfiol. Dylid osgoi muriau amgylchynol uchel gan y gallent guddio lladron. Mewn rhai achosion gallai angen i hyn gael ei ategu drwy gyflwyno TCC neu ddulliau diogelwch eraill. Yn benodol dylai'r cyfleusterau hyn gael eu lleoli lle nad oes modd i gerbydau mawr eraill fel faniau, ddwyn beiciau modur.

Rhaid darparu angorfeydd cadarn i gloi beiciau modur iddynt, ond rhaid i angorfeydd gael eu dylunio mewn ffordd sy'n darparu ar gyfer ystod eang o feintiau olwyn beiciau modur, ond heb ei gwneud yn hawdd i offer gael ei ddefnyddio i'w dwyn. Rhaid hefyd gofalu nad yw cyfleusterau cloi'n peri perygl baglu i gerddwyr, pobl anabl ac yn benodol pobl ag anawsterau gweld.

Byddai manau parcio wedi'u gorchuddio yn sicr o fudd i ddefnyddwyr, yn enwedig ar gyfer parcio hirdymor, fel y byddai cyflenwi biniau sbwriel cyfleus gan fod gan feicwyr fawr o le i gludo pethau ategol. Mae hefyd yn bwysig ystyried cyflenwi loceri i gadw dillad diogelwch a helmedau beicwyr.

Mae hyd a lled beiciau modur yn gyfferdinol yn llai pan fônt wedi'u parcio, gan y bydd yr olwyn flaen wedi'i throï a'i chloi. Mae'r hyd a lled yn amrywio rhwng tua 1600mm i 2,300 mm (hyd) a 650 mm i 900 mm (lled). Argymhellir maint lle o 2.8m x 1.3m.

Rhaid rhoi ystyriaeth bellach i feicwyr anabl. Awgrymir i ddarpariaeth gael ei wneud i feicwyr anabl drwy fodd llefydd arbennig wedi'u marcio o faint mwy. Caiff unrhyw feiciwr sy'n llai symudol a chryf fudd o'r gofod ychwanegol i osod eu hunain ar ochr y beic wrth symud neu fynd arno. Wrth i boblogaeth y beicwyr heneiddio, mae stiffwydd a llai o symudedd yn gwneud hon yn broblem gyffredin.

Ni ddylai fod arwyneb bitwmen ar lefydd parcio gan y gall feddalau mewn tywydd poeth, gan achosi i stand y beic modur suddo a'r beic i ddisgyn drosodd. Dylai concriid osgoi'r broblem hon.

Mae mwy o ganllawiau ar gael yn y Llawlyfr i Strydoedd.

Math y Datblygiad	Darpariaeth Parcio Beiciau Modur
Pob dosbarth datblygu	55 ar gyfer parcio ceir

12. Diffiniadau a Nodiadau

Lle Parcio Gweithredol – Digon o le i ganiatáu uchafswm nifer a maint y cerbydau sy'n debygol o wasanaethu'r datblygiad ar unrhyw adeg ac i symud yn hawdd a sefyll ar gyfer llwytho a dadlwytho heb peri anghyfleuster i gerbydau a cherddwyr ar y briffordd gyhoeddus neu i ddefnyddwyr eraill y safle.

Gallai lle i geir staff sydd, yn ôl natur y busnes, ei angen i weithredu o ddydd i ddydd, gael ei gynnwys.

Lle Parcio Anweithredol – Y gofod a ddefnyddir gan gerbydau nad ydynt o reidrwydd yn cael eu defnyddio i weithredu safle. Fe'u rhenni yn ddau ddsbarth:

Hirdymor (h.y. parcio i gymudwyr) yn bennaf gyda cherbydau staff/cleientiaid/cwsmeriaid sy'n aros ar y safle am arosiadau hir.

Parcio byrdymor staff/cleientiaid/cwsmeriaid sydd angen bod ar y safle am gyfnod byr.

Lle Parcio Preswyl – Y lle sydd ei angen i drigolion a gofod i geir pobl sy'n ymweld â'r trigolion.

Ardal Llawr Gros – Y safonau sy'n gysylltiedig ag ardaloedd llawr yw ardaloedd llawr gros h.y. gan gynnwys waliau allanol, ac eithrio pan fo'r testun yn nodi fel arall o ran tafarndai, bwytai, caffis ac addoldai.

Estyn neu Ddatblygu Adeiladau – O ran safleoedd diwydiannol, swyddfeydd, masnachol a thafarndai cyn 1914, dan ardal llawr gros o 245 msg, caniateir cynnydd o 20% heb fod angen mwy o lefydd parcio. Gall y lwfans hwn ond â chael ei wneud a rhaid i unrhyw barcio a waredir gan ei wneud yn iawn amdano.

Hygyrchedd Trafnidiaeth Gyhoeddus - Gall darparu trafndiaeth gyhoeddus leihau defnydd o'r car a lle y bo'n briodol dylai lefel y ddarpariaeth hon gael ei gwella wrth fynd drwy'r broses gynllunio. Mae hawster mynediad i drafndiaeth gyhoeddus yn gysylltiedig â'r lefelau parcio gofynnol drwy'r system ardaloedd a gyflwynir gan y ddogfen hon.

Dwysedd Cyflogaeth – Aseswyd y safonau ar arferion dwysedd (manwerthu 19.5 msg y cyflogai; diwydiannol 35-45 msg y cyflogai, swyddfa 16.5 msg y cyflogai). Gellir ymdrin ag amrywiadau dwysedd yn ôl eu rhinweddau.

Defnydd Tir – at ddibenion rhoi safonau parcio ar waith noda'r tabl canlynol y defnyddir tir a nodir yng Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987.

Defnyddiau Dosbarth Yng Ngorchymyn 1987 Defnyddiau Tir Yn Y Canllawiau Parcio

Dosbarthiadau Defnydd yng Ngorchymyn 1987	Defnyddiau Tir yn y Canllawiau Parcio
Dosbath A1: Siopau	Siopau Archfarchnadoedd a Siopau Mawr Warysau Manwerthu (Talu a Chario)
Dosbarth A2: Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol Dosbarth A3: Bwyd a Diod	Swyddfeydd (ond mewn achosion pan fo safle'n benodol i'r cyhoedd sy'n ymweld). Bwytai, Tafarndai, Caffis, Caffis Cludiant, Clybiau Trwyddedig.
Dosbarth B1: Busnes Dosbarth B2: Diwydiannol Cyffredinol Dosbarth B3 – B7: Diwydiannol Arbennig Dosbarth B8: Storio neu Ddosbarthu	Swyddfeydd (heblaw am A2 uchod) / Diwydiant ysgafn Diwydiant Diwydiant Warysau Cyfanwerthu
Dosbarth C1: Gwestai a Hostelau Dosbarth C2: Sefydliadau Preswyl Dosbarth C3: Anhedd-dai Dosbarth C4: Tai Amlfeddiannaeth	GWestai Cartrefi i'r Henoed, Plant ac ati. Cartrefi nyrsio Ysbytai Tai Pwrpas Cyffredinol a Fflatiau Llety Gwarchod Tai neu fflatiau a rennir a feddiennir gan unigolion nad ydynt yn perthyn fel eu hunig neu brif breswylfa.
Dosbarth D1: Sefydliadau Amhreswyl	Canolfannau Iechyd Meddygfeydd Eglwysi Ysgolion Cynradd / Meithrin Ysgolion Uwchradd Colegau Addysg Bellach Llyfrgelloedd Neuaddau Ymgynnull e.e. Canolfannau Cymunedol, Clybiau Diwydiant
Dosbarth D2: Ymgynnull a Hamdden	Canolfannau Hamdden Clybiau Chwaraeon Neuaddau Ymgynnull e.e. Neuaddau Bingo

Nodyn:

1. Nid yw rhai defnyddiau yn y ddogfen hon dan fantell unrhyw Ddosbarth Defnydd penodol ac felly rhaid delio â hwy'n unigol (gweler defnyddiau cyffredinol) e.e. marchnadoedd awyr agored.
2. Ni ddiffiniwyd y Safonau'n ôl Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd 1987 gan y byddai hyn yn arwain at ystod eang o ddarpariaeth a argymhellir e.e. mae busnes Dosbarth B1 yn cynnwys rhai defnyddiau swyddfa a diwydiant. Byddai safon yn rhagweld y rhyngnewidedd hon yn eang iawn ac felly ni roddir safonau ond at ddibenion penodol defnydd tir perthnasol e.e. defnydd swyddfa neu ddiwydiannol.
3. O ran rhyngnewidedd defnyddiau gallai fod angen gosod cyfyngiadau ar ddatblygu o fewn y dosbarthiadau ehangach hyn er mwyn adlewyrchu gofynion parcio ceir.



Cyngor Bro Morgannwg
**Cyfarwyddiaeth Adfywio a
Chynllunio**
Swyddfa Doc
Barri Doc
Barri Cf63 4RT

LDP@valeofglamorgan.gov.uk
www.valeofglamorgan.gov.uk